Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DYDDIAD CYHOEDDI:
02/10/2025

# Adroddiad Adolygiad Rhifau Adnabod Daliadau (CPH)

Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-462-9

Teitl: Adroddiad Adolygiad Rhifau Adnabod Daliadau (CPH)

Awdur(on): Alma Economics

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:
Enw: Thêa O'Brien
Is-adran: Adran Cynaliadwyedd ac Datblygiad Amaethyddol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Rhif ffôn: 03000250311
E-bost: thea.obrien@gov.wales

## Tabl cynnwys


Rhestr ffigurau ....................................................................................................2

Rhestr Termau ....................................................................................................3

1. Cyflwyniad ....................................................................................................5

2. Methodoleg ....................................................................................................7

3. Argymhellion Polisi ....................................................................................................12

4. Archwiliad o Brofiad y Defnyddiwr ....................................................................................................18

5. Argymhellion ....................................................................................................38

6. Atodiadau ....................................................................................................42

7. Ychwanegiadau ....................................................................................................67

## Rhestr ffigurau

Ffigur 1. Methodoleg yr archwiliad o brofiad y defnyddiwr ..................................................9
Ffigur 2. Matrics blaenoriaethu rhwystrau ........................................................................10
Ffigur 3. Enghraifft eglurhaol o Argymhelliad 1 .................................................................13
Ffigur 4. Cael at Reoli Fy CPH..........................................................................................31
Ffigur 5. Tudalen lanio enghreifftiol..................................................................................32
Ffigur 6. Modd help ..........................................................................................................32
Ffigur 7. Rhestr termau ....................................................................................................33
Ffigur 8. Newidiadau awgrymedig i ryngwyneb defnyddiwr Rheoli Fy CPH .........................34
Ffigur 9. Modiwl tasgau a map parhaus enghreifftiol..........................................................35
Ffigur 10. Awgrymiadau ar gyfer osgoi gwallau .................................................................36
Ffigur 11. Newidiadau awgrymedig i osodiad y ffenestr grynhoi .........................................37

**Rhestr Termau**

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| APHA | Mae'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn un o asiantaethau gweithredol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar faterion yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid, gan gynnwys cyhoeddi rhifau diadell a buches ar gyfer da byw a gorchymyn mesurau amddiffyn yn erbyn clefydau anifeiliaid. |
| BCMS | Mae Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain yn rhan o'r Asiantaeth Taliadau Gwledig. Mae'n cynnal cronfa ddata ar-lein o'r holl anifeiliaid buchol ym Mhrydain Fawr, sef y System Olrhain Gwartheg (CTS). |
| CPH | Mae Rhif Daliad yn gyfeirnod daearyddol unigryw ar gyfer fferm neu grŵp o leiniau o dir. Mae'r CPH yn cynnwys naw digid. Mae'r ddau ddigid cyntaf yn cyfeirio at y sir, mae'r tri digid nesaf yn cyfeirio at y plwyf, ac mae'r pedwar olaf yn adnabod y daliad. |
| CRN | Mae Cyfeirnod y Cwsmer yn god adnabod busnes unigryw sy'n cael ei ddyrannu i gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru. Mae'n dechrau gydag "A" a ddilynir gan saith digid (e.e., A0012345) |
| EIDCymru | EIDCymru yw'r system electronig ar gyfer cofnodi defaid a geifr yng Nghymru. Caiff ei hymestyn i gynnwys mwy o rywogaethau da byw yn y blynyddoedd i ddod, gan ddod yn 'Amlrywogaeth Cymru'. |
| FLS | Mae'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm yn cael ei gynnal gan Lywodraeth Cymru i roi arweiniad a chymorth ynglŷn â grantiau a rheoliadau amaethyddol. |
| LIDAG | Mae'r Grŵp Cynghori ar Adnabod Da Byw yn dod â rhanddeiliaid allweddol o'r diwydiant da byw ynghyd i lywio penderfyniadau polisi a gweithredu. |
| OCVO | Mae Swyddfa'r Prif Filfeddyg yn gyfrifol am bolisi iechyd a lles anifeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys dileu clefydau, strategaethau rheoli, a pholisïau rheoli clefydau. |
| PPL | Y Prif Leoliad Cynhyrchu yw prif leoliad y CPH. Ni all tir comin gael ei ystyried yn rhan o'r PPL. Gan amlaf, y PPL yw lleoliad yr adeiladau da byw, y parlwr godro, neu'r prif gyfleusterau trin eraill ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid neu ddibenion hwsmonaeth. Os nad oes adeiladau'n |

| | |
|---|---|
| | bresennol, y PPL fyddai'r lleoliad crynhoi. Mae manylion llawn ar gael yn y ddogfen ganllaw CPH. |
| QWFC | Mae'r Ardystiad Bwyd Cymreig o Ansawdd (QWFC) yn ardystio ffermydd yn erbyn Safonau Uned Gwarantin Llywodraeth Cymru. |
| RIW | Mae Arolygiaeth Wledig Cymru yn cynnal arolygiadau o ffermydd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheoliadau, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â chofnodi symudiadau anifeiliaid yn gywir gan ddefnyddio rhifau CPH. |
| RPA | Mae'r Asiantaeth Taliadau Gwledig yn gweithredu yn Lloegr yn unig – mae'n cyfateb i Daliadau Gwledig Cymru. |
| RPW | Mae Taliadau Gwledig Cymru yn un o asiantaethau Llywodraeth Cymru sy'n cyflawni prosiectau amaethyddol allweddol, gan gynnwys gweinyddu taliadau a rheoli'r system 'Rheoli Fy CPH' ar-lein. |
| RPW Ar-lein | Mae RPW Ar-lein yn wefan a gynhelir gan Daliadau Gwledig Cymru i helpu i weinyddu taliadau a rheoliadau, gan gynnwys y system 'Rheoli Fy CPH' ar-lein. |
| tCPH | Defnyddir CPH dros dro yn 'Rheoli Fy CPH' i greu rhif CPH ar gyfer uchafswm o 364 o ddiwrnodau. |
| TLA | Defnyddir Cysylltiadau Tir Dros Dro yn 'Rheoli Fy CPH' i gysylltu lleiniau tir â rhif CPH am gyfnod dros dro o fewn ffin deng milltir. Gellir eu sefydlu am uchafswm o 364 o ddiwrnodau, ac wedyn byddant yn dod i ben. Gall ceidwaid ofyn am TLA sy'n ailadrodd bob blwyddyn (rTLA) ar gyfer yr un dyddiadau bob blwyddyn. |
| UI | Mae rhyngwyneb defnyddiwr yn disgrifio'r elfennau gweledol a rhyngweithiol sy'n caniatáu i ddefnyddwyr roi cyfarwyddiadau i dechnoleg a derbyn gwybodaeth ganddi, er enghraifft, botymau ac elfennau gweledol y wefan 'Rheoli Fy CPH'. |
| UX | Mae profiad y defnyddiwr yn disgrifio profiad cyffredinol unigolyn sy'n defnyddio cynnyrch, fel gwefan, yn enwedig o ran pa mor hawdd a syml ydyw i'w ddefnyddio. |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn adolygu'r system Rhifau Daliadau (CPH) yng Nghymru, a'i phrosesau a'i chanllawiau. Mae'n cynnwys argymhellion i wella'r polisïau sy'n ymwneud â rhifau CPH yng Nghymru ac argymhellion a fframiau gwifren i wella profiad defnyddwyr o 'Reoli Fy CPH'.

1.2 Mae creu proses i gategoreiddio ac adnabod tir amaethyddol yn systematig yn elfen hanfodol o'r gallu i olrhain da byw. Trwy adnabod tir, gellir olrhain symudiadau da byw ar draws gwahanol gaeau, ardaloedd, a rhanbarthau, sy'n rhan allweddol o ymdrechion i reoli clefydau anifeiliaid a bodloni gofynion defnyddwyr modern o ran y gallu i olrhain 'o'r pridd i'r plât'.

1.3 Mae Rhifau Daliadau (CPH) wedi bod yn ymateb i'r her o adnabod tir a ddefnyddir ar gyfer da byw ledled y Deyrnas Unedig ers degawdau lawer. Yn wir, mae Short, Watkins, a Martin (2006: 219) yn nodi "gellir olrhain y rhifau hyn yn ôl i'r ymdrech cynharaf gan y wladwriaeth â chasglu gwybodaeth am amaethyddiaeth yng nghanol y 19eg ganrif a dechrau'r Cyfrifiad Amaethyddol blynyddol ym 1866." Cyflwynwyd rhifau CPH ar eu ffurf fodern – sef rhif naw digid i adnabod tir amaethyddol mewn ardal benodol – yn ystod y 1940au ac fe'u haddaswyd yn barhaus yn y blynyddoedd ers hynny (Peiso *et al.*, 2011). Daeth rhifau CPH a'r gallu i olrhain da byw yn fwy amlwg yn dilyn y pandemig clwy'r traed a'r genau yn y blynyddoedd 2000 cynnar. Er hynny, mae rhifau CPH wedi aros ar ffurf naw digid ers y 1940au, lle mae'r ddau ddigid cyntaf yn cyfeirio at y sir, y tri nesaf yn cyfeirio at y plwyf, a'r pedwar olaf yn adnabod y daliad.

1.4 Mae rhifau CPH yn wahanol i ffyrdd eraill o adnabod ffermydd, fel cyfeiriadau, codau post, neu godau adnabod busnes fel Cyfeirnodau'r Cwsmer (CRNau) a ddefnyddir gan Daliadau Gwledig Cymru. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod y rhifau CPH yn adnabod lleiniau penodol o dir yn fwy manwl a chywir, maen nhw'n cynnig mwy o hyblygrwydd i ddefnyddwyr ac asiantaethau na dulliau adnabod eraill, ac mae llai o risg o adnabod defnyddwyr unigol.

1.5 Yng Nghymru, diwygiwyd rhifau CPH yn 2016 i gyflwyno system ar-lein newydd ar gyfer creu, golygu, a chau rhifau CPH, sef 'Rheoli Fy CPH'. Yn ogystal, diwygiwyd

cyfres o bolisïau i wella trefniadau rheoli clefydau a lleihau’r baich ar geidwaid da byw. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gorfodi dileu cysylltiadau Cytundeb Rheoli Cysylltiadau Tir Dros Dro, Awdurdodau Meddiannaeth Unigol, a System Olrhain Gwartheg.
- Cyflwyno radiws deng milltir, y gall pob llain o dir ynddo gael ei chynnwys o fewn un CPH a symud heb adrodd na chyfnodau gwahardd symud.
- Cyflwyno prosesau newydd ar gyfer cofrestru cysylltiadau tir dros dro (TLAau) a CPHau dros dro (tCPHau).

1.6 Yn wahanol i Loegr, roedd y newidiadau hyn yn orfodol dim ond ar gyfer ceidwaid presennol sy’n defnyddio cysylltiadau Cytundeb Rheoli Cysylltiadau Tir Dros Dro, Awdurdodau Meddiannaeth Unigol, a System Olrhain Gwartheg. Mae hyn yn golygu bod asiantaethau yng Nghymru yn gweithredu gyda dwy set o ofynion ar hyn o bryd. Mae tua 60% o geidwaid da byw wedi ‘trosi’ i ofynion ôl-2016, ac mae 40% ‘heb drosi’, sy’n golygu eu bod yn parhau i weithredu o dan ofynion cyn-2016.

1.7 Daeth rhai heriau i’r amlwg yn sgil cyflwyno’r rheolau newydd hyn, yn enwedig problemau perfformiad yn ymwneud â ‘Rheoli Fy CPH’, fel llwytho’n araf a rhewi. Fodd bynnag, credir bod yr heriau hyn wedi cael eu datrys i raddau helaeth, felly mae’n adeg dda i adolygu Rhifau Daliadau yng Nghymru, gan gynnwys y rheolau a gyflwynwyd yn 2016 a phrofiad defnyddwyr o ‘Reoli Fy CPH’.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r adolygiad hwn o Rifau Daliadau wedi'i lywio gan ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru, partneriaid cyflawni, rhanddeiliaid amaethyddol, a cheidwaid da byw ledled Cymru. Mae wedi'i lywio hefyd gan ddadansoddiad desg o 'Reoli Fy CPH', dogfennau polisi CPH, a chanllawiau perthnasol. Yn fanylach, gellir categoreiddio'r adolygiad yn bedwar cam (darganfod, gwaith maes, dadansoddi, ac adborth a llunio).

**Y cam darganfod**

2.2 Roedd y cam darganfod yn cynnwys cyfres o gamau i sicrhau bod yr adolygiad yn cael ei lywio gan hanfodion Rhifau Daliadau yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd â swyddogion polisi Llywodraeth Cymru ac adolygiad desg o ddogfennau perthnasol. Roedd dogfennau allweddol yn cynnwys:

- Fersiynau diweddaraf Canllawiau a Chwestiynau Cyffredin 'Rheoli fy CPH'.
- Fersiwn ddiweddaraf canllawiau adnabod a symud ar gyfer defaid, geifr, moch, gwartheg, dofednod, ac anifeiliaid eraill.
- Fersiynau diweddaraf canllawiau ynglŷn ag Unedau Cwarantin.
- Egwyddorion rheolau a gofynion newydd ôl-2016.
- Y pecyn e-ddysgu a grëwyd gan RPW Ar-lein.

**Y cam gwaith maes**

2.3 Yn dilyn y cam darganfod, cynhaliwyd cam gwaith maes sylweddol i sicrhau bod profiadau rhanddeiliaid, partneriaid cyflawni, a defnyddwyr yn ganolog i'r adolygiad.

2.4 Dechreuodd hyn gyda deg cyfweliad â phartneriaid cyflawni ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2024. Cynhaliwyd cyfweliadau â chynrychiolwyr Taliadau Gwledig Cymru (RPW), Llywodraeth Cymru, Swyddfa'r Prif Filfeddyg (OCVO), yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW), yr Asiantaeth Taliadau Gwledig, ac EIDCymru a Ardystiad Bwyd Cymreig o Ansawdd (QWFC). Recordiwyd, trawsgrifiwyd, a dadansoddwyd y rhain yn ôl themau gan y cyfwelwyr eu hunain. Arweiniodd hyn at gyfres o ganfyddiadau allweddol a rennir yn Atodiad Ch.

2.5 Yn dilyn y cyfweliadau â phartneriaid cyflawni, cynhaliwyd grŵp ffocws gydag aelodau'r Grŵp Cynghori ar Adnabod Da Byw (LIDAG), sy'n cynnwys undebau ffermio, cyrff masnach, sefydliadau'r gadwyn gyflenwi, a rhai eraill sy'n ymwneud ag adnabod da byw. Recordiwyd a thrawsgrifiwyd y rhain hefyd cyn eu dadansoddi, ac mae'r canfyddiadau allweddol ar gael yn Atodiad D.

2.6 Ar ddechrau 2025, trefnwyd bod arolwg ar gael i geidwaid da byw. Y gynulleidfa darged oedd defnyddwyr y system 'Rheoli Fy CPH', a gyrhaeddwyd yn bennaf trwy 'neges ddarlledu' o fewn swyddogaeth negesu RPW Ar-lein a anfonwyd ar 10 Ionawr 2025. Roedd yr arolwg ar gael o 9 Ionawr 2025 tan 14 Chwefror 2025 a chafwyd 137 o ymatebion dilys. Gellid ateb yr arolwg yn Gymraeg neu Saesneg. Dadansoddwyd yr ymatebion gan ymchwilydd dwyieithog, a sicrhaodd fod ymatebion yn y ddwy iaith yn cael eu trin yn gydradd. Ceir adroddiad ar y canfyddiadau a dyfyniadau allweddol yn Atodiad A.

2.7 Cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws ym mis Chwefror 2024 gyda defnyddwyr 'Rheoli Fy CPH'. Roedd y rhain yn cynnwys dau grŵp ffocws yn Aberystwyth, un yn Llanelwedd (ger Llanfair-ym-Muallt), a dau grŵp ffocws rhithwir. Gwahoddwyd cyfranogwyr trwy ffurflen Mynegi Diddordeb a oedd ar gael wrth a chyn cwblhau'r arolwg, a thrwy bostiadau ar sianeli cyfryngau cymdeithasol ac yn uniongyrchol trwy rwydweithiau academaidd a phersonol. Yn unol â'r galw, cynhaliwyd tri grŵp ffocws yn Saesneg a dau yn Gymraeg. Cymerodd cyfanswm o 15 o bobl ran yn y grwpiau ffocws. Gwnaed nodiadau yn ystod y grwpiau ffocws, a ddadansoddwyd gan ymchwilydd dwyieithog. Mae casgliad o'r canfyddiadau ar gael yn Atodiad B.

### Y cam dadansoddi

2.8 Rhannwyd y cam dadansoddi'n ddau gategori: dadansoddi polisi ac archwilio profiad y defnyddiwr.


2.9 Roedd yr elfen dadansoddi polisi'n cynnwys adolygu'r canfyddiadau allweddol o'r Cam Gwaith Maes, ystyried y cyfyngiadau a'r heriau sy'n wynebu'r cynigion a wnaed gan y rhai a gymerodd ran yn y gwaith maes, adolygiad arall o ganllawiau a'r system 'Rheoli Fy CPH', a datblygu argymhellion polisi drafft i'w hystyried ymhellach yn ystod y Cam Adborth a Llunio. Ategwyd hyn gan gyfathrebu ac

eglurhad pellach trwy e-bost a galwad fideo gyda phartneriaid cyflawni allweddol, gan gynnwys RPW Ar-lein, Swyddogion Polisi Llywodraeth Cymru, APHA, a'r RPA.


2.10 Defnyddiodd yr archwiliad o brofiad y defnyddiwr ganfyddiadau allweddol o'r camau Darganfod a Gwaith Maes, hefyd. Ar ôl datblygu llifoedd defnyddwyr o'r tasgau mwyaf cyffredin ar y platfform a map o daith y defnyddiwr i amlinellu profiad nodweddiadol defnyddiwr sy'n ymgysylltu â 'Rheoli Fy CPH', cynhaliwyd asesiad manwl yn seiliedig ar hewristigau defnyddioldeb Nielsen, sef fframwaith a ddefnyddir yn gyffredin wrth ymchwilio i brofiad y defnyddiwr i bennu a yw rhyngwyneb wedi'i ddylunio mewn modd sy'n hawdd ei ddefnyddio. Aseswyd pob un o'r deg prawf hewristig ar raddfa o Lefel 1 (dim problemau defnyddioldeb wedi'u hamlygu) i Lefel 2 (mân broblemau defnyddioldeb wedi'u hamlygu) i Lefel 3 (problemau defnyddioldeb critigol), gan hefyd gofnodi rhwystrau perthnasol ac argymhellion i wella'r problemau a amlygwyd.

2.11 Ar ôl cofnodi rhwystrau ar gyfer pob prawf hewristig, priodolwyd blaenoriaeth iddynt yn seiliedig ar effaith y rhwystr ar brofiadau defnyddwyr a faint o ymdrech oedd yn ofynnol i fynd i'r afael ag ef. Yn olaf, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad o ddefnyddioldeb a'r matrics blaenoriaeth rhwystrau, datblygwyd fframiau gwifren a phrototeipiau rhyngweithiol i ddangos awgrymiadau y gellid eu gweithredu i wella profiad defnyddwyr o 'Reoli Fy CPH'.

Ffigur 1. Methodoleg yr archwiliad o brofiad y defnyddiwr



Ffigur 2. Matrics blaenoriaethu rhwystrau




2.12 Mae'n bwysig nodi bod y gwelliannau a awgrymwyd i 'Reoli Fy CPH' wedi'u datblygu yn seiliedig ar arweiniad cyhoeddedig i ddefnyddwyr (gan gynnwys pecyn e-ddysgu a ddatblygwyd gan RPW) ac arddangosiad wedi'i recordio o'r platfform. Nid oedd y tîm ymchwil yn gallu cael at 'Reoli Fy CPH' yn uniongyrchol o ganlyniad i gyfyngiadau ar greu cyfrif. Rhoddir rhagor o fanylion am gyfyngiadau argymhellion profiad y defnyddiwr yn yr adran ar yr archwiliad o brofiad y defnyddiwr yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

**Y cam adborth a llunio**

2.13 Roedd cael adborth ar 'Reoli Fy CPH' gan ddefnyddwyr a phartneriaid cyflawni yn bwysig i lwyddiant yr adolygiad annibynnol hwn. Cynhaliwyd dau weithdy yng nghanol mis Mawrth 2025 i gael adborth gan ddefnyddwyr 'Rheoli Fy CPH' – un yn Gymraeg ac un yn Saesneg. Roedd y rhain yn cynnwys rhannu cyflwyniad a oedd yn amlinellu'r sail resymegol wrth wraidd argymhellion allweddol ynglŷn â pholisi a phrofiad y defnyddiwr a derbyn sylwadau gan ddefnyddwyr. Mae'r canfyddiadau allweddol o'r gweithdai hyn ar gael yn Atodiad C. Yn dilyn y gweithdai hyn, cynhaliwyd 'Cyfarfod Canfyddiadau sy'n Dod i'r Amlwg' ar 3 Ebrill 2025 gyda'r partneriaid cyflawni a gyfwelwyd yn ystod y Cam Gwaith Maes, a ddilynwyd gan gyflwyniad i'r Grŵp Cynghori ar Adnabod Da Byw ar 9 Ebrill 2025. Gwnaed argymhellion ynglŷn â thôn ac esbonio termau allweddol, sydd wedi llywio'r adroddiad terfynol a luniwyd. Lluniwyd yr adroddiad terfynol gan Alma Economics yn ddiweddarach ym mis Ebrill 2025, gyda sylwadau gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni allweddol i sicrhau cywirdeb a dealltwriaeth glir. Ni olygwyd unrhyw argymhellion yn ystod y broses sylwadau.

## 3. Argymhellion Polisi

3.1 Gwneir cyfres o argymhellion polisi yn rhan o'r adolygiad o Rifau Daliad (CPH) yng Nghymru, wedi'u llywio gan yr ymgysylltiad a ddisgrifiwyd yn y Fethodoleg, a oedd yn cynnwys, yn nodedig, ymgysylltu â sefydliadau sy'n ymwneud â rheoli a defnyddio rhifau CPH, defnyddwyr rhifau CPH (h.y., ffermwyr), a rhanddeiliaid amaethyddol a da byw. Gellir gweld canfyddiadau'r gwaith maes hwn yn yr Atodiadau (A-D), a defnyddir dyfyniadau dethol o'r atodiadau hyn i ddangos achosion defnydd ar gyfer newidiadau polisi, lle bo'n briodol.

3.2 Er y bu Swyddfa'r Prif Filfeddyg yn ymwneud â datblygu'r argymhellion polisi hyn, mae'n bwysig cydnabod nad yw'r un ohonynt wedi bod yn destun asesiadau risg epidemiolegol. Mater i Lywodraeth Cymru, asiantaethau perthnasol, a phartneriaid cyflawni yw penderfynu a yw unrhyw argymhelliad yn achosi risg o ran clefydau.

3.3 At hynny, mae rhai argymhellion polisi'n gofyn am wneud newidiadau i'r system 'Rheoli Fy CPH' gan RPW Ar-lein. Bydd cymhlethdod technegol a gofynion adnoddau amrywiol yn gysylltiedig â'r rhain, y cânt eu trafod ymhellach yn yr adran ar yr archwiliad o brofiad y defnyddiwr.


**Argymhelliad 1: Dileu'r gofyniad i dir comin fod gerllaw Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL) mewn CPHau wedi'u trosi, yn amodol ar Asesiad Risg Milfeddygol boddhaol.**

3.4 Her allweddol a amlygwyd drwy gydol yr adolygiad, gan gynnwys gan ymatebwyr i'r arolwg, cyfranogwyr grwpiau ffocws, sefydliadau rhanddeiliaid ffermio, a rhai swyddogion a gyfwelwyd, oedd nad yw nifer sylweddol o geidwaid wedi trosi eu CPH i fersiwn a rheolau diweddaraf 'Rheoli Fy CPH' oherwydd bod y rheolau ar CPHau wedi'u trosi yn llymach o ran Tir Comin. O dan y rheolau presennol ar gyfer CPHau wedi'u trosi, mae'n rhaid i dir comin fod gerllaw 'Bloc' o fewn 'Rheoli Fy CPH', sy'n cynnwys Prif Leoliad Cynhyrchu. O dan y rheolau ar gyfer CPHau sydd heb drosi, mae angen i dir comin fod gerllaw bloc o dir o fewn CPH a berchnogir gan y ceidwad yn unig. Mae hyn yn creu cymhelliad cryf iawn i geidwaid sy'n defnyddio Tir Comin beidio â throsi eu CPH, oherwydd byddent yn destun llawer mwy o gyfyngiadau ar symud anifeiliaid. Mae'r her hon yn arbennig o arwyddocaol mewn ardaloedd lle y defnyddir mwy o Dir Comin, fel Powys.

3.5 Yn ôl un ymatebwr i'r arolwg: "Ers i mi drosi fy CPH, mae gennyf dir comin nad yw'n gyffiniol â'r PPL, felly ni ellir ei gyfuno â'm prif CPH. Mae'n rhaid i'r tir comin gael CPH ar wahân, ac mae angen prawf Cyn Symud cyn i unrhyw dda byw gael eu symud rhwng y prif CPH a'r CPH tir comin. Mae gennyf hawliau tir comin ar bedwar gwahanol ddarn o dir comin, sydd i gyd o fewn y radiws deng milltir, felly mae hyn yn golygu rheoli pum CPH. Mae'n rhaid i mi, fel ceidwad, sicrhau bod symudiadau da byw i'r CPH tir comin yn cael eu hadrodd, rwy'n darllen yr holl dagiau, ac mae rheolau gwahardd symud yn berthnasol, hefyd. A allwch chi ddiwygio hyn, os gwelwch yn dda, oherwydd mae'n wirion. Dyma'r rheswm pam nad yw'r rhan fwyaf o ffermwyr ym Mhowys wedi trosi." (Ceidwad defaid)

3.6 Felly, argymhellwn fod y polisi'n cael ei newid i ddiwygio'r gofyniad hwn i sicrhau y byddai angen i Dir Comin fod gerllaw bloc CPH presennol yn unig, yn hytrach na bloc presennol sy'n cynnwys Prif Leoliad Cynhyrchu. Fe ddylai hyn fod yn destun Asesiad Risg Milfeddygol boddhaol; er y dylid ystyried mai dyma'r rheol 'de facto', lle nad yw ceidwaid wedi trosi er mwyn osgoi'r gofynion llymach, a byddai diwygio'r gofyniad hwn yn hwyluso cyflwyno terfyn amser i drosi pob CPH yng Nghymru (Argymhelliad 4).

Ffigur 3. Enghraifft eglurhaol o Argymhelliad 1




**Argymhelliad 2: Cyflwyno'r gallu i CPHau dros dro 'ailadrodd' bob blwyddyn, fel sy'n wir ar hyn o bryd ar gyfer Cysylltiadau Tir Dros Dro sy'n ailadrodd.**

3.7 Cais cyffredin gan ddefnyddwyr CPH yn yr arolwg a'r grwpiau ffocws oedd cyflwyno'r opsiwn i CPHau dros dro allu 'ailadrodd'. Byddai hyn yn dilyn rheolau a dull Cysylltiadau Tir Dros Dro ailadroddol (rTLA) yn agos. Disgwylir y byddai

tCPHau yn lleihau’r llwyth gwaith i ffermwyr sy’n dymuno ailsefydlu tCPHau ar dir a ddefnyddir bob blwyddyn ar gyfer pori yn yr haf neu’r gaeaf.

3.8 Mewn gweithdy adborth ar yr argymhellion gyda swyddogion, dywedwyd y gallai hyn olygu bod defnyddwyr ‘Rheoli Fy CPH’ yn sefydlu tCPH ailadroddol sy’n para 365 o ddiwrnodau bob blwyddyn, pan ddylai defnyddwyr sefydlu CPH parhaol yn y cyd-destun hwnnw. Er mwyn annog pobl i ddefnyddio CPHau parhaol a tCHP ailadroddol fel y dymunir, fe allai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud tCPH ailadroddol yn ddilys am nifer lai o ddiwrnodau mewn blwyddyn, er enghraifft 243 o ddiwrnodau yn lle 364. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer pori tymhorol ailadroddol, ar yr un pryd ag annog y rhai hynny sy’n dal tir am fwy na blwyddyn i sefydlu CPH parhaol. Mae’r adolygiad hwn yn amwys ynglŷn â phenodoldeb tCPH ailadroddol, gan ystyried bod y gofyniad hwn yn angenrheidiol dim ond os yw tCPH yn achosi mwy o faich i RPW a sefydliadau eraill sy’n ymwneud â defnyddio a rheoli rhifau CPH. At hynny, credwn y dylai’r rheolau ar gyfer TLAau ailadroddol adlewyrchu rheolau CPHau dros dro ailadroddol, lle bo’n bosibl.

**Argymhelliad 3: Rhoi’r un rhif i CPHau dros dro ailadroddol ac Unedau Cwarantin, yn hytrach na rhifau newydd bob tro y cânt eu hadnewyddu.**

3.9 Gan ychwanegu at yr argymhelliad blaenorol, mae’r adolygiad hwn yn cynnig bod yr un rhif CPH yn cael ei roi i tCPH ailadroddol, tCPH ar leiniau unfath o dir ac sydd â’r un perchennog, ac Unedau Cwarantin a adnewyddir yn dilyn ailasesiad gan QWFC.

3.10 Mae rhoi’r un rhif CPH yn yr achosion hyn yn fuddiol i ddefnyddwyr a’r rhai sy’n rheoli systemau CPH mewn tair ffordd allweddol:

- Byddai hyn yn golygu na fyddai rhaid i ddefnyddwyr roi gwybod i wasanaethau symud da byw (fel EIDCymru a BCMS) ac eraill am eu rhif CPH newydd bob blwyddyn. Byddai hyn yn lleihau’r baich ar geidwaid da byw a systemau rheoli da byw fel EIDCymru a BCMS (ac Amlrywogaeth Cymru yn y dyfodol).
- Byddai hyn yn golygu bod llai o ddefnyddwyr yn rhoi’r hen rif CPH anghywir ar ffurflenni swyddogol a systemau symud da byw. Byddai hyn yn gwneud defnyddwyr yn llai pryderus ynglŷn â gwneud camgymeriad ac yn gwella

cywirdeb ffurflenni swyddogol, gan gynnwys y rhai hynny a ddefnyddir i gofrestru prynu da byw.

- Byddai hyn yn ei gwneud yn haws i sefydliadau fel Taliadau Gwledig Cymru, Arolygiaeth Wledig Cymru, a'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion weld 'hanes' tCPH ac Uned Gwarantin, gan wella'r gallu i olrhain yn y tymor hwy.

**Argymhelliad 4: Cyflwyno terfyn amser o flwyddyn i drosi i fersiwn ddiweddaraf rhifau a rheolau CPH. Dylai hyn ddilyn gweithredu Argymhelliad 1, datblygu pecyn cymorth, a dechrau ar adeg sy'n addas i Lywodraeth Cymru a'r diwydiant.**

3.11 Mae'r adolygiad hwn yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno terfyn amser o flwyddyn erbyn pryd y mae'n rhaid i ddefnyddwyr 'Rheoli Fy CPH' drosi eu CPH. Mae'n argymell ymhellach bod y terfyn amser hwn yn cael ei gyflwyno dim ond ar ôl i'r gofyniad i dir comin fod gerllaw Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL) mewn CPHau wedi'u trosi (Argymhelliad 1) gael ei ddileu. Byddai'n rhaid i'r terfyn amser gael ei gyflwyno ar adeg briodol, ond yn ddelfrydol byddai'n cael ei gwblhau cyn i Amlrywogaeth Cymru (MSW) gael ei gweithredu'n llawn. Dylid datblygu cynllun cymorth manwl i ffermwyr ar y cyd â'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm (FLS) a Chanolfan Cyswllt Cwsmeriaid RPW cyn i'r terfyn amser o flwyddyn gael ei gyhoeddi. Yn y pen draw, dylai Llywodraeth Cymru bennu a chadarnhau pryd i ddechrau'r terfyn amser o flwyddyn, gan y bydd yn dibynnu ar brosiectau eraill a gofynion ar y diwydiant.

3.12 Fe allai'r cynllun cymorth gynnwys:

- Digwyddiadau a stondinau mewn marts, arwerthiannau, a sioeau.
- Cysylltu â defnyddwyr sydd â CPHau heb eu trosi trwy negeseuon e-bost, llythyrau, a galwadau ffôn penodol.
- Cynnig swyddogaethau galwadau fideo a digwyddiadau cymorth wyneb yn wyneb, yn ogystal â chymorth ar y ffôn.

- Sesiynau hyfforddi naid ar sut i ddefnyddio ‘Rheoli Fy CPH’ a gwasanaethau ar-lein eraill, fel Amlrywogaeth Cymru (sydd i ddod), yn ystafelloedd cyfrifiaduron prifysgolion, ysgolion, llyfrgelloedd, ac yn y blaen.

3.13 Galwodd y rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws hefyd am “*opsiwn un clic ar gyfer CPHau syml iawn,*” a fyddai’n golygu bod RPW Ar-lein yn gofyn am ganiatâd y defnyddiwr i drosi CPH syml (e.e., CPH heb dir comin, dim TLA cysylltiedig, a nifer gyfyngedig o flociau), a bod hyn yn cael ei gymeradwyo naill ai o fewn ‘Rheoli Fy CPH’ neu drwy gytuno dros y ffôn neu drwy e-bost. Gan nad ydym yn gyfarwydd â phrosesau a systemau mewnol RPW, ni wyddom a yw hyn yn bosibl, ond byddem yn argymell bod RPW ac eraill yn archwilio ei ymarferoldeb.

**Argymhelliad 5: Ymchwilio ymhellach i’r potensial i greu ‘Siop Un Stop’ ar gyfer cyhoeddi rhifau CPH a rhifau diadell a buches yng Nghymru.**

3.14 Canfuom fod pob math o randdeiliaid, gan gynnwys ceidwaid, grwpiau rhanddeiliaid (LIDAG) ffermio, a swyddogion, yn cefnogi ‘Siop Un Stop’ ar gyfer cyhoeddi rhifau CPH a rhifau diadell a buches yng Nghymru. Byddai hyn yn golygu y gallai ffermwyr gael rhif CPH parhaol neu dros dro newydd ochr yn ochr â’u rhifau diadell a buches, yn hytrach na gorfod cysylltu ag APHA ar ôl derbyn eu rhif CPH.

3.15 Rydym wedi cael gwybodaeth fanwl gan AHPA ynglŷn â sut mae rhifau diadell a buches yn cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd, ac wedi cynnwys hyn yn **Atodiad A**. Un o’r heriau allweddol yw bod APHA yn casglu’r wybodaeth ar gyfer cyhoeddi rhifau diadell a buches dros y ffôn ar hyn o bryd, sy’n caniatáu ar gyfer dilysu cywirdeb y wybodaeth a gofnodir yn gynnil. Mae system yn cael ei threialu yn Lloegr (a weinyddir gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig) sy’n caniatáu i ddefnyddwyr gofrestru i gwblhau eu cais am CPH a rhifau diadell a buches ar yr un pryd dros y ffôn. Rhennir y ffurflen a ddefnyddir ar gyfer cofrestru yn **Atodiad A**, hefyd. Mae hyn yn bosibl yn system Lloegr oherwydd nad yw’n defnyddio swyddogaeth fapio ‘Rheoli Fy CPH.’ Fodd bynnag, awgrymodd cyfweleion fod cynigion o fewn RPA i dreialu gofyn y cwestiynau sy’n ofynnol ar gyfer rhif diadell a buches trwy ffurflen ar-lein yn hytrach na thros y ffôn, fel y gwneir ar hyn o bryd. Pe byddai hyn yn cael ei dreialu, byddai’n gyfle da i Lywodraeth Cymru ddysgu o’r profiad a llywio datblygiad ‘Siop Un Stop’ ar gyfer Cymru.

3.16 Amlygwyd sawl budd cynyddol yn sgil creu ‘Siop Un Stop’. Un enghraifft nodedig yw y byddai’n caniatáu i RPW Ar-lein wybod pa rywogaeth y defnyddir CPH, TLA, neu tCPH newydd ar ei chyfer. Fe allai hyn ddarparu mwy o wybodaeth i lywio penderfyniadau i gymeradwyo neu wrthod newidiadau o fewn ‘Rheoli Fy CPH’ yn unol â risgiau clefydau sy’n benodol i rywogaeth. Budd arall yw y gallai ‘Siop Un Siop’ leihau’r llwyth gwaith i gyflogeion APHA ac RPW, gan ganiatáu i geidwaid wneud cais am rifau diadell a buches ar-lein. Yn olaf, bydd ‘Siop Un Stop’ yn golygu na fydd ceidwaid yn cysylltu â sefydliadau fel APHA, RPW, a QWFC ar gyfer rhifau diadell a buches cyn cael rhif CPH, gan felly leihau llwythi gwaith diangen ymhellach a gwella profiadau cwsmeriaid.

## 4. Archwiliad o Brofiad y Defnyddiwr

4.1 Mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau a'r argymhellion o'r archwiliad o brofiad defnyddwyr o 'Reoli Fy CPH', a lywiwyd gan ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid (a ddisgrifir yn yr adran Fethodoleg) ac adolygiad desg o ganllawiau cyhoeddedig i ddefnyddwyr. Nod yr archwiliad o brofiad y defnyddiwr oedd deall yr heriau sy'n gysylltiedig â defnyddio fersiwn gyfredol 'Rheoli Fy CPH', cymharu'r platfform ag arferion gorau o ran dylunio a hygyrchedd, ac awgrymu gwelliannau fel bod 'Rheoli Fy CPH' yn gweithio'n fwy effeithiol i'w ddefnyddwyr bwriadedig.

**Cyfyngiadau**

4.2 Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion a amlinellir yn yr adran hon o'r adroddiad yn destun sawl cyfyngiad pwysig, yn enwedig ynglŷn â sut y datblygwyd y canfyddiadau a sut y dylid dehongli a defnyddio'r argymhellion. Disgrifir y cyfyngiadau hyn yn fanylach isod.

*Gallu cyfyngedig i ddefnyddio'r platfform mewn amser real*

4.3 Nid oedd modd cael at 'Reoli Fy CPH' yn uniongyrchol trwy gyfrif ffug. O ganlyniad, roedd y gwerthusiad a'r awgrymiadau dilynol ar gyfer gwelliannau yn seiliedig ar ffynonellau amgen, gan gynnwys arddangosiad fideo a ddarparwyd gan adran TG RPW i Alma, pecyn e-ddysgu, a dogfennau canllaw sydd ar gael. Fe allai absenoldeb llywio amser real a phrofiad ymarferol fod wedi cyfyngu ar y gallu i archwilio rhyngweithiadau defnyddwyr penodol yn fanwl. Er hynny, mae'r canfyddiadau'n werthfawr o hyd oherwydd eu bod wedi'u seilio ar nifer o ffynonellau data sydd, gyda'i gilydd, yn rhoi dealltwriaeth gynhwysfawr o ymarferoldeb y platfform ac yn sicrhau bod yr asesiad yn berthnasol ac yn gallu cael ei weithredu. Yn ogystal, o ganlyniad i'r un cyfyngiadau, ni ellid gwerthuso hygyrchedd y platfform. Fodd bynnag, mae hygyrchedd wedi cael ei amlygu drwy gydol yr adroddiad fel ystyriaeth hollbwysig, gan fod dyluniad cynhwysol yn sicrhau bod pawb yn gallu defnyddio rhyngwyneb digidol, ar yr un pryd â gwella profiad cyffredinol y defnyddiwr.

*Ymwadiad dylunio fframiau gwifren*

4.4 Bwriedir i'r fframiau gwifren a ddarperir yn yr adroddiad hwn fod yn ganllawiau gweledol neu lasbrintiau yn unig yn hytrach na rhyngwynebau caboledig sy'n barod i'w cynhyrchu. Cawsant eu creu i gyfleu gwelliannau arfaethedig i'r system 'Rheoli Fy CPH' yn glir ac yn weledol, yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, adborth gan ddefnyddwyr, ac asesiad o ddefnyddioldeb.

4.5 Gall y partneriaid cyflawni ddewis mabwysiadu unrhyw un o'r argymhellion hyn, neu bob un ohonynt. Fodd bynnag, mae cryfder y newidiadau arfaethedig hyn yn deillio o'u heffaith gronnol, sy'n golygu po fwyaf argymhellion a weithredir, mwyaf effeithiol a chynhwysfawr yr eir i'r afael â rhwystrau defnyddwyr, gan wella'r gwerth i ddefnyddwyr.

4.6 Yn ogystal, mae'r fframiau gwifren hyn yn dangos ymarferoldeb arfaethedig a chysyniadau dylunio ar gam sylfaenol, lefel uchel. Er enghraifft, pan fydd ffrâm wifren yn dangos botwm sy'n actifadu modd 'Help' ar dudalen benodol, yn ddelfrydol, byddai'r nodwedd hon yn cael ei gweithredu'n gyson yn y rhaglen gyfan drwyddi draw, fel y gwelir orau. Yn ogystal, caiff partneriaid cyflawni ffurfio, newid, neu addasu'r dyluniadau awgrymedig hyn yn unol â'u brand sefydledig, elfennau profiad defnyddwyr presennol, canllawiau dylunio mewnol, gofynion hygyrchedd, a chyfyngiadau technegol.

*Ymwadiad amcangyfrif ymdrech dechnegol*

4.7 Mae'r amcangyfrifon ymdrech dechnegol a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn ganllawiau dangosol, lefel uchel y bwriedir iddynt gyfleu'r cymhlethdod cymharol a'r ymdrech weithredu sy'n gysylltiedig â gwelliannau awgrymedig i'r rhyngwyneb defnyddiwr/profiad y defnyddiwr. Categoreiddiwyd yr amcangyfrifon hyn yn lefelau ymdrech cyffredinol (Isel, Canolig, ac Uchel) yn seiliedig ar feincnodau safon y diwydiant ar gyfer adnoddau datblygu meddalwedd lefel iau i ganolig.

4.8 Mae'n bwysig nodi bod yr amcangyfrifon hyn wedi cael eu cynhyrchu'n annibynnol gan dîm Alma Economics, heb gydweithredu uniongyrchol na dilysu gan staff technegol RPW. Fel y cyfryw, nid ydynt yn adlewyrchu prosesau llywodraethu

mewnol RPW, arbenigedd staff penodol, cyfyngiadau technegol, na chyfyngiadau sy’n deillio o systemau etifeddol neu fframweithiau dylunio presennol.

4.9 Mae’r amcangyfrifon hyn yn canolbwyntio’n benodol ar yr ymdrech datblygu technegol sy’n ofynnol i weithredu ymarferoldeb, ac maen nhw’n eithrio tasgau cysylltiedig â dylunio yn benodol. Mae’r dyluniadau ffrâm wifren a gynhwysir yn yr adroddiad hwn wedi’u cyflwyno’n fwriadol mewn fformat lefel uchel, wedi’i symleiddio, i alluogi’r sefydliadau sydd dan sylw i’w haddasu’n rhwydd a’u cysoni â safonau dylunio mewnol presennol, brandio gweledol, a llyfrgelloedd elfennau.

4.10 Er ein bod wedi ceisio darparu amcangyfrifon realistig a defnyddiol, rydym yn llwyr gydnabod symleiddiadau neu fylchau posibl a allai godi o’n safbwynt allanol. O ganlyniad, dylai RPW addasu a mireinio’r amcangyfrifon hyn yn unol â’i amgylchiadau ymarferol, prosesau mewnol, argaeledd adnoddau, a seilwaith technolegol ei hun.

**Canfyddiadau**

4.11 Mae’r adran hon yn cyflwyno disgrifiad cynhwysfawr o ganfyddiadau’r archwiliad o brofiad y defnyddiwr, o lif defnyddiwr ‘Rheoli Fy CPH’ i argymhellion y gellir eu gweithredu i wella’r gallu i lywio ‘Rheoli Fy CPH’ a pha mor hawdd yw ei ddefnyddio, gyda phwyslais cryf ar ddylunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn.

*Llif defnyddiwr*

4.12 Datblygwyd diagram llif defnyddiwr i asesu llif y cynnyrch a saernïaeth y wybodaeth. Mae’r diagram hwn yn dangos y llwybr a ddilynir gan ddefnyddiwr o fewn y platfform i gwblhau tasg benodol. Yn seiliedig ar y deunydd sydd ar gael, mapiwyd y llifoedd tasgau ehangaf y gall defnyddwyr eu cyflawni yn ‘Rheoli Fy CPH’ ac, yn benodol, i) sut i drosi CPH, ii) sut i greu CPH parhaol neu dros dro newydd, a iii) sut i gau CPH. Roedd y llif defnyddiwr yn offeryn arweiniol drwy gydol y prosiect, gan ddarparu sylfaen strwythurol ar gyfer datblygu allbynnau dilynol a chreu fframiau gwifren sy’n deillio ohonynt.

*Map o daith y defnyddiwr*

4.13 Lluniwyd y map o daith y defnyddiwr fel y mae (gweler Atodiad B) i ddelweddu’r broses a ddilynir gan ddefnyddiwr i gyflawni ei nod. Mae’r map wedi’i strwythuro o

amgylch pedwar cam allweddol: i) ymwybyddiaeth, ii) archwilio, iii) defnyddio, a iv) cymorth a defnydd parhaus. Mae'n ymgorffori persona defnyddiwr ac yn amlinellu camau gweithredu, nodau, teimladau, meddyliau, rhwystrau, a chyfleoedd i oresgyn heriau o safbwynt y defnyddiwr.

4.14 Mae'r persona defnyddiwr yn gynrychioliad ffuglennol o ddefnyddiwr posibl ac mae'n ffordd defnyddiol o amlygu'r hyn y mae ddefnyddwyr ei angen gan gynnyrch trwy ganolbwyntio ar nodweddion, anghenion, nodau, a disgwyliadau'r defnyddiwr wrth ryngweithio â chynnyrch. I ddatblygu'r map o daith y defnyddiwr fel y mae, crëwyd persona defnyddiwr cryno (gweler Atodiad A) i sicrhau bod y broses fapio'n canolbwyntio ar safbwyntiau defnyddwyr.

4.15 Ar gyfer pob un o'r pedwar cam, mae'r map o daith y defnyddiwr yn cofnodi nodau ac amcanion, camau a gymerwyd, emosiynau a brofwyd, a heriau posibl sy'n achosi tagfeydd wrth ryngweithio â 'Rheoli Fy CPH'. Roedd adran ychwanegol o'r map o daith y defnyddiwr yn canolbwyntio ar amlygu cyfleoedd ar gyfer gwella, gyda syniadau cychwynnol i fynd i'r afael â rhwystrau allweddol drwy gydol taith y defnyddiwr. Cyflwynodd yr adran hon archwiliad cysyniadol cychwynnol o ddatrysiadau dylunio posibl, gan weithredu fel sail i ddatblygu argymhellion mwy caboledig yn ystod camau diweddarach y prosiect. Isod, rhoddwn drosolwg o daith defnyddiwr posibl wrth ddefnyddio 'Rheoli Fy CPH'.

4.16 <u>Ymwybyddiaeth</u>: Yn ystod y cam ymwybyddiaeth, mae defnyddwyr yn cydnabod bod angen cyflawni tasg sy'n gysylltiedig â'u rhif CPH neu'n dod yn ymwybodol bod platfform digidol yn bodoli i reoli tasgau o'r fath. Ar y cam hwn, mae'n bosibl na fydd defnyddwyr wedi defnyddio'r platfform o'r blaen. Eu prif nod yw dod o hyd i'r platfform a phenderfynnu a yw'n cynnig yr arweiniad sy'n angenrheidiol i gwblhau eu tasgau bwriadedig. Yn ystod y cam hwn, fe allai defnyddwyr deimlo'n falch o ddarganfod teclyn a allai eu helpu i reoli eu rhif CPH. Fodd bynnag, daw ansicrwydd neu chwilfrydedd law yn llaw â hyn yn aml, gan nad ydynt wedi profi'r platfform eto ac fe allent fod yn ansicr ynglŷn â sut i gael ato neu ei lywio. Mae rhwystr posibl yn ystod y cam hwn yn gysylltiedig ag anwybodaeth neu ddiffyg amlygrwydd ynglŷn â sut i gael at y platfform i ddechrau. Gellir mynd i'r afael ag ymwybyddiaeth isel o'r platfform trwy ei hyrwyddo trwy sianeli presennol a rhwydweithiau rhanddeiliaid.

4.17 Archwilio: Yn ystod y cam hwn, mae defnyddwyr yn dechrau ystyried eu hopsiynau ar gyfer rheoli tasgau sy'n gysylltiedig â CPH. Fe allent chwilio am blatfform addas ar-lein neu geisio cyngor gan gymheiriaid. Fel arfer, bydd canlyniadau chwilio am "Reoli Fy CPH" yn eu harwain at wefan Llywodraeth Cymru, a fydd yn eu hailgyfeirio at RPW Ar-lein, y gallant gael at 'Reoli Fy CPH' trwyddo. Ar yr adeg hon, nod y defnyddiwr yw cael at y platfform. Fodd bynnag, gall y daith deimlo'n ddarniog. Gall sawl ailgyfeiriad ac absenoldeb pwynt mynediad clir i'r platfform arwain at ddryswch. Yn ogystal, mae dod ar draws nifer fawr o ddogfennau canllaw yn gynnar yn y broses yn teimlo'n llethol i ddefnyddwyr cyn iddynt hyd yn oed ddechrau defnyddio'r platfform. Mae rhwystrau yn ystod y cam hwn yn gysylltiedig â diffyg eglurder ynglŷn â sut i gael at y platfform ac absenoldeb porth mynediad ar wahân ar gyfer platfform sydd â'i swyddogaethau unigryw ei hun. Gellid lliniaru'r heriau hyn naill ai trwy greu porth uniongyrchol ar gyfer 'Rheoli Fy CPH' neu drwy symleiddio'r broses fynediad bresennol i'w gwneud yn fwy greddfol.

4.18 Defnyddio: Yn ystod y cam hwn, mae'r defnyddiwr yn rhyngweithio â'r platfform yn uniongyrchol i gwblhau tasgau penodol. Mae'r rhain yn cynnwys trosi rhif CPH presennol i'r system newydd, cofrestru CHP parhaol neu dros dro (tCHP) newydd, creu Cysylltiad Tir Dros Dro (TLA), ychwanegu neu ddileu tir, neu gau CPH. Mae defnyddwyr yn disgwyl cwblhau'r gweithredoedd hyn yn ddidrafferth ac yn annibynnol, heb fod angen cymorth allanol sylweddol. I fodloni disgwyliadau defnyddwyr, dylai'r platfform ddarparu profiad greddfol, di-dor, gan leihau camau annisgwyl neu wallau i'r eithaf a galluogi defnyddwyr i gwblhau tasgau o'r dechrau i'r diwedd gydag eglurder a hyder. Archwilir rhwystrau sy'n gysylltiedig â defnyddio 'Rheoli Fy CPH' yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad, ynghyd ag awgrymiadau ar gyfer optimeiddio. Mae'r prif heriau a fapiwyd yn y daith yn ystod y cam defnyddio yn dechrau gyda diffyg dyluniad greddfol a hawdd ei ddefnyddio, gyda chamau gweithredu a ddiffiniwyd yn glir i gefnogi llywio di-dor. Roedd rhwystrau ychwanegol yn cynnwys diffyg gallu'r system i gydnabod gwallau ac opsiynau adfer cyfyngedig, defnydd dwys o adnoddau, yn enwedig ail-lwytho'r map yn fynych, a oedd yn cael effaith negyddol ar brofiad y defnyddiwr, yn enwedig i'r rhai sydd â chysylltiadau gwan â'r rhyngrwyd ac absenoldeb personoli sy'n gallu atal ymgysylltiad gan ddefnyddwyr ymhellach.

4.19 Cymorth a defnydd parhaus: Mae'r cam hwn yn ymdrin ag anghenion cymorth uniongyrchol ac ymgysylltiad hirdymor â'r platfform. Mae'n bosibl y bydd angen i ddefnyddwyr gael cymorth i ddatrys problemau neu egluro proses benodol tra byddant yn defnyddio'r platfform. Mae defnyddwyr yn tueddu i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda drwy geisio cymorth dros y ffôn gan y ganolfan gyswllt. Fodd bynnag, fe allai dogfennau canllaw deimlo'n llethol oherwydd eu hyd a'u dwysedd, ac nid yw defnyddwyr yn cael eu cynorthwyo'n dda o fewn y platfform ar hyn o bryd mewn modd cyfunol nac mewn ffyrdd amgen, fel trwy gyfleuster sgwrsio neu adran Cwestiynau Cyffredin. Wrth i ddefnyddwyr ymgyfarwyddo â'r platfform, fe allai rhai barhau i ymgysylltu ag ef yn rheolaidd i reoli eu data CPH. Fe allai eraill ymddieithrio os yw'r system yn parhau i fod yn rhy gymhleth neu anreddfol. Fodd bynnag, mae defnydd mynych yn aml yn cynyddu cynefindra a hyder, gan alluogi defnyddwyr i gwblhau tasgau'n gyflymach wrth i amser fynd heibio. Mae rhwystrau amlwg yn ystod y cam hwn yn gysylltiedig ag absenoldeb arweiniad digonol o fewn y platfform a dull llywio cymhleth y platfform, a allai arwain at ymddieithrio. Gall ffyrdd cychwynnol o addasu materion sy'n ymwneud â chymorth ac arweiniad gynnwys gwneud deunydd sydd eisoes ar gael yn fwy gweladwy a sicrhau bod y deunydd hwn ar gael yn rhwydd trwy ychwanegu adrannau perthnasol neu ddolenni clir o fewn y platfform a chyflwyno adran Cwestiynau Cyffredin i gael cymorth cyflym. O ran defnydd parhaus, bydd optimeiddio perfformiad y platfform yn helpu i sicrhau profiad didrafferth i ddefnyddwyr (h.y., symleiddio'r dyluniad, lleihau i'r elfennau angenrheidiol).

**Asesiad hewristigau defnyddioldeb Nielsen**

4.20 Dilynodd yr asesiad o hewristigau defnyddioldeb fframwaith hewristigau defnyddioldeb Nielsen, gan werthuso pob un o'r deg prawf hewristig yn unigol. At ei gilydd, roedd y platfform 'Rheoli Fy CPH' rhwng Lefel 2 a 3 ar raddfa ddefnyddioldeb Nielsen. Mae hyn yn golygu bod gan y platfform broblemau defnyddioldeb bach a chritigol sy'n gallu cael effaith negyddol ar rwyddineb defnyddio'r platfform a chyflwyno heriau i'w ddefnyddwyr. Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'r rhesymeg wrth wraidd y sgôr ar gyfer pob prawf hewristig defnyddioldeb ac yn cyflwyno awgrymiadau dylunio i fynd i'r afael â'r rhwystrau a amlygwyd. Mae dolen i daenlen yr asesiad o hewristigau defnyddioldeb llawn ar gael yma.

**Rhwystrau ac argymhellion**

4.21 Mae gweddill yr adran hon yn amlygu 'rhwystrau' allweddol yn y system 'Rheoli Fy CPH' bresennol ac yn cynnig argymhellion i'w datrys. Mae llawer o'r argymhellion hyn wedi'u hymgorffori mewn fframiau gwifren (gweler 4.42).

*Gwelededd statws y system (Lefel 3 Nielsen)*

4.22 Rhwystrau: Nid yw'r dyluniad yn cyfleu beth sy'n digwydd o fewn y platfform yn gyson i ddefnyddwyr. Nid oes ciwiau gweledol clir i ddangos i ddefnyddwyr ble maen nhw ar y platfform a pha mor bell maen nhw wedi'i gyrraedd wrth gwblhau tasg. Yn ail, nid yw diben y platfform a'r tasgau y gellir eu cyflawni yn amlwg ar unwaith wrth ei agor, sy'n rhywbeth arall a grybwyllwyd gan y rhai a ymatebodd i'r arolwg yn ystod y cam Gwaith Maes. Er enghraifft, nid yw'r opsiwn i ychwanegu CPH newydd wedi'i leoli'n reddfol ar hyn o bryd, a allai olygu bod defnyddwyr yn ei fethu neu'n cael trafferth dod o hyd iddo. Gall y diffyg cyfeiriad hwn o flaen llaw achosi i ddefnyddwyr deimlo ar goll neu'n ansicr sut i ddechrau, gan arafu eu gallu i lywio a chwblhau camau angenrheidiol yn effeithlon. At hynny, mae llifoedd defnyddwyr ar gyfer gwahanol dasgau yn gymhleth ac nid ydynt yn amlwg i'r defnyddiwr. Yn olaf ond un, gellir gweld unrhyw ddiweddariadau ar gyfer tasgau a gwblhawyd neu sydd yn yr arfaeth yn "Negeseuon", sy'n cynnwys popeth sy'n ymwneud ag RPW Ar-lein ac nid dim ond 'Rheoli fy CPH'. Mae hyn yn golygu nad yw diweddariadau'n amlwg ac fe allai hefyd arwain at saernïaeth wybodaeth wael trwy gladdu diweddariadau pwysig o dan gynnwys gormodol. Yn olaf, nid yw rhifau bloc yn weladwy ar y map ar hyn o bryd.

4.23 Argymhellion:

- Gall cynnwys dangosyddion cynnydd gweledol, fel bariau cynnydd, helpu i ddangos i ddefnyddwyr ba mor bell maen nhw wedi'i gyrraedd yn y broses. Mewn proses aml-gam, fel cyflwyno ceisiadau, mae hyn yn helpu i reoli disgwyliadau defnyddwyr ac yn eu hannog i gwblhau'r dasg.
- Er mwyn helpu'r defnyddiwr i ddilyn y trywydd iawn, dylid rhoi dau opsiwn gwahanol iddo wrth agor y wefan sy'n arwain at y tasgau a'r camau canlynol: i) creu rhif CPH newydd a ii) rheoli rhif CPH presennol.
- Diffinio llifoedd tasgau clir i arwain defnyddwyr trwy bob proses.

- Byddai'n fuddiol i brofiad y defnyddiwr petai nodwedd negeseuon ar wahân yn cael ei chreu ar gyfer 'Rheoli Fy CPH' am gyn hired ag y mae'r platfform yn parhau i fod wedi'i integreiddio ag RPW Ar-lein. Yn y tymor hir, bydd yr argymhelliad blaenorol yn effeithiol ar unwaith os bydd gan y platfform borth mewngofnodi ar wahân a'i fod yn annibynnol ar RPW Ar-lein.
- Bydd arddangos rhif neu enw'r bloc wrth ei ddewis neu hofran drosto ar y map yn gwneud statws y system yn fwy amlwg.

*Cyfatebiaeth rhwng y system a'r byd go iawn (Lefel 2 Nielsen)*

4.24 Rhwystrau: Mae'r system yn defnyddio terminoleg (e.e., "Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL)" neu "Brif Gyfleusterau Trin") nad yw'n cael ei hesbonio drwyddi draw. Gall hyn fod yn anodd i ddefnyddwyr newydd, yn enwedig y rhai hynny sy'n anghyfarwydd â'r diwydiant. Mae defnyddwyr yn disgwyl esboniadau byr neu ddisgrifiadau cyflym o dasgau o fewn y platfform i'w hatgoffa'n gyflym tra'u bod yn defnyddio 'Rheoli Fy CPH', heb orfod chwilio trwy'r deunydd canllaw. Yn ogystal, yn ystod cam Gwaith Maes yr adolygiad hwn, dywedodd rhai cyfranogwyr eu bod yn gallu defnyddio'r platfform yn Saesneg yn unig, gan nad yw'r Gymraeg a ddefnyddir yn cyd-fynd â'r iaith pob dydd a ddefnyddir yn aml.

4.25 Argymhelliad:

- Bydd defnyddio iaith syml ac osgoi jargon yn hwyluso profiad y defnyddiwr wrth iddo ryngweithio â'r platfform, ac felly hefyd cynnwys esboniadau neu ddisgrifiadau byr pan ddefnyddir terminoleg. Bydd cynnig 'Rheoli Fy CPH' mewn Cymraeg clir neu lai technegol yn caniatáu i bobl ddefnyddio'r platfform yn eu dewis iaith.

*Rheolaeth a rhyddid y defnyddiwr (Lefel 3 Nielsen)*

4.26 Rhwystrau: Ar ôl dechrau tasg, nid oes modd i ddefnyddiwr adael y broses. Ceir botwm "Ailddechrau", ond nid yw'n cael ei ddangos i ddefnyddwyr nes iddynt gwblhau'r broses. Yn ogystal, yn ystod y cam Gwaith Maes, dywedodd defnyddwyr os oeddent yn dechrau cam trwy gamgymeriad, roedd y system yn cael trafferth hwyluso dychwelyd i'r cam blaenorol.

4.27 Argymhelliad:

- Cynnwys "diangfeydd" gweladwy a hygyrch i atal proses. Dylai'r dyluniad hefyd gynnwys neges sy'n rhybuddio defnyddwyr os byddant yn gadael y

broses, byddant yn colli popeth maen nhw wedi'i fewnbynnu hyd yma. Os oes modd, gall y dyluniad gefnogi swyddogaethau dadwneud ac ailwneud a llwybrau byr ar gyfer defnyddwyr mwy profiadol sy'n deall technoleg.

*Cysondeb a safonau (Lefel 2 Nielsen)*

4.28 Rhwystrau: Nid yw crynodebau'n glir. Mae defnyddwyr yn dod ar draws amryw fathau o grynodebau ar y platfform drwyddo draw (crynodeb CPH, crynodeb tCPH, ac ati), ond nid yw'r gwahaniaethau rhyngddynt yn glir. Ceir diffyg cysondeb tebyg mewn arferion enwi. Er enghraifft, mae rhif penodol a neilltuir i leiniau o dir naill ai'n cael ei alw'n "Rhif Adnabod Llain" neu'n cael ei rannu'n ddwy ran, sef "cyfeirnod y ddalen" a "rhif cae". Defnyddir sawl term i ddisgrifio'r un cysyniad, a allai greu dryswch, yn enwedig i ddefnyddwyr newydd neu achlysurol. Yn ogystal, pan fydd tasg wedi'i chwblhau, mae'r system yn rhoi gwybod i'r defnyddiwr y bydd copi o'i gais yn cael ei arbed yn ei "Negeseuon", ond enw'r nodwedd gyfatebol yn y ddewislen yw "Gohebiaeth", sy'n cynnwys negeseuon ynglŷn â phob mater sy'n ymwneud ag RPW Ar-lein.

4.29 Argymhellion:

- Gwneud y gwahaniaethau rhwng mathau o grynodebau'n fwy eglur trwy newid teitlau a thestun disgrifiadol, ychwanegu awgrymiadau neu labeli disgrifiadol, a defnyddio lliwiau i'w gwneud yn fwy greddfol. Defnyddio teitlau, terminoleg, botymau ac eiconau cyson yn y system drwyddi draw.
- Bydd defnyddio arferion enwi a therminoleg cyson ar y platfform drwyddo draw yn sicrhau llywio di-dor. Er enghraifft, fe allai fod yn fwy clir petai'r hysbysiad cadarnhau ar gyfer cais a gyflwynwyd yn crybwyll "Gohebiaeth", hefyd. Fe allai'r hysbysiad ddweud, "Bydd copi o'ch cais yn cael ei arbed yn eich Negeseuon. Gallwch ddod o hyd i'ch negeseuon o dan Ohebiaeth." Fe allai hyn helpu defnyddwyr i wybod ble mae gwybodaeth bwysig wedi'i lleoli a sut mae'r platfform wedi'i strwythuro.

*Atal gwallau (Lefel 2 Nielsen)*

4.30 Rhwystr: Mae'r platfform yn cynnwys cyfyngiadau i helpu defnyddwyr i osgoi gwallau (er enghraifft, integreiddio lleiniau o dir a gofrestrwyd mewn CPH arall). Fodd bynnag, gallai'r dyluniad fod yn fwy greddfol i atal gwallau rhag digwydd.

4.31 Argymhelliad:

- Dylid cyfleu cyfyngiadau'n gynharach yn y broses i atal gwallau. Gallai'r map gynnwys hidlydd ar gyfer lleiniau tir cofrestredig nad ydynt ar gael, felly ni fydd modd dewis y rhain o'r dechrau.

*Cydnabod yn hytrach nag adalw (Lefel 3 Nielsen)*

4.32 Rhwystrau: Nid yw'r system yn cynnwys esboniadau penodol o dermau allweddol, a allai achosi i ddefnyddwyr geisio gwybodaeth y tu allan i'r platfform. Hefyd, mae'r platfform yn tybio bod gan ddefnyddwyr wybodaeth benodol wrth law eisoes i gwblhau tasgau. Mae hyn yn golygu bod arweiniad a chymorth o fewn y platfform yn arbennig o bwysig.

4.33 Argymhellion:

- Cynnal cysondeb o ran termau a helpu'r defnyddiwr i ddeall pa wybodaeth sy'n ofynnol i gwblhau tasg.
- Gall esboniadau clir, awgrymiadau, a chymorth cyd-destunol hwyluso'r broses yn fawr a helpu defnyddwyr i gyflawni eu nodau'n fwy effeithlon.

*Hyblygrwydd a defnydd effeithlon (Lefel 2 Nielsen)*

4.34 Rhwystr: Gallai'r dyluniad fod yn fwy hyblyg i ganiatáu ar gyfer personoli, er enghraifft wrth gyflawni tasgau mynych neu wahaniaethu rhwng mathau o ddefnyddwyr, fel defnyddwyr profiadol a newydd.

4.35 Argymhellion:

- Byddai'n gwella personoli petai defnyddwyr yn gallu ailenwi neu drefnu blociau'n ddilyniannol.
- Gellir personoli'r platfform yn ôl faint o brofiad sydd gan y defnyddiwr ohono. Er enghraifft, gellir rhoi opsiwn "golwg e-ddysgu" i ddefnyddiwr newydd sy'n ei lywio trwy bob tasg, a gall defnyddiwr mynych gael camau wedi'u harbed neu adran ffefrynnau ar gyfer tasgau a gyflawnir yn aml.

*Dyluniad esthetig a minimalaidd (Lefel 2 Nielsen)*

4.36 Rhwystr: Gall dyluniad y platfform fod yn fwy greddfol, yn enwedig i bobl nad ydynt yn deall technoleg, er mwyn eu helpu i lywio trwy'r tasgau amrywiol y mae angen iddynt eu cyflawni. Po leiaf greddfol yw'r dyluniad, mwyaf anodd ydyw i

ddefnyddwyr ddod o hyd i nodweddion, deall llif tasgau, neu gwblhau camau'n effeithlon. Mae angen rhoi ystyriaeth fanwl i deipograffeg, lliw, ac eiconograffeg i gyd-fynd â gofynion hygyrchedd a gwella defnyddioldeb a rhwyddineb llywio.

4.37 Argymhellion:

- Bydd sicrhau bod botymau ac elfennau rhyngwyneb defnyddiwr wedi'u fformatio, eu henwi, a'u lleoli'n gyson yn lleihau dryswch ac yn gwella defnyddioldeb.
- Mewn prosesau aml-gam, fel cyflwyno ceisiadau, gall dangosyddion cynnydd gweledol helpu i reoli disgwyliadau defnyddwyr a'u hannog i gwblhau'r dasg. Gellir gweithredu hyn trwy gynnwys bar cynnydd i ddangos i ddefnyddwyr pa mor bell maen nhw wedi'i gyrraedd yn y broses.
- Cymhwyso egwyddorion dylunio, fel agosrwydd (casglu eitemau cysylltiedig ynghyd mewn grŵp) a thebygrwydd (eitemau sydd â nodweddion tebyg ac y tybir eu bod yn gysylltiedig), i wella hierarchaeth weledol a llif y defnyddiwr.
- Gellir gwella'r dyluniad gweledol i gyfateb i ddisgwyliadau defnyddwyr a'u helpu i ddod o hyd i bethau a llywio. Gall alinio testun yn briodol, maint y ffont, teip, a gofodau hybu eglurder, darllenadwyedd, a hygyrchedd.
- Defnyddio cyfuniadau lliwiau cyferbynnedd uchel i sicrhau llywio hygyrch.
- Gall eiconau cyfarwydd a hawdd eu hadnabod leihau'r llwyth gwybyddol a helpu defnyddwyr i adnabod eu swyddogaethau'n gyflym.

*Helpu defnyddwyr i adnabod, deall a chywiro gwallau (Lefel 3 Nielsen)*

4.38 Rhwystrau: Nid yw'r system yn cynnig digon o esboniad pan fydd defnyddwyr yn derbyn negeseuon gwall (er enghraifft, croes goch wrth ochr rhif CPH) nac yn cynnig ffyrdd o oresgyn y gwallau hyn. Rhwystr arall a godwyd gan gyfranogwyr ynglŷn â gwallau oedd ceisio clicio ar y map cyn ateb cwestiynau gofynnol, ac yna'u cael eu hunain mewn sefyllfa nad oeddent yn gwybod sut i'w datrys. Dylai defnyddwyr ateb y cwestiwn yn gyntaf ac yna dewis tir ar y map, ond nid yw'r platfform yn rhoi arweiniad clir ar sut i wneud hyn. O ganlyniad, roedd defnyddwyr yn ansicr ynghylch sut i symud ymlaen neu gywiro'r broblem, sy'n dangos bod angen cymorth gwell i adnabod y gwall hwn a'i gywiro.

4.39 Argymhellion:

- Gall awgrymiadau neu destun hofran i ddisgrifio’r gwall helpu i adnabod a chywiro gwallau. Er enghraifft, gellir osgoi gwall dewis llain o dir cyn ateb cwestiynau gofynnol trwy gyflwyno neges rybuddio neu annog glir.
- Byddai tywys defnyddwyr trwy’r dilyniant cywir, fel amlygu cwestiynau heb eu hateb neu ddarparu cyfarwyddiadau gam wrth gam, yn eu helpu i gwblhau’r dasg yn llwyddiannus.

*Cymorth a dogfennau (Lefel 3)*

4.40 Rhwystr: Nid oes digon o arweiniad a chymorth ar y platfform drwyddo draw. Nid oes dolen i’r pecyn e-ddysgu yn ‘Rheoli Fy CPH’, a dywedodd y rhan fwyaf o’r bobl a gymerodd ran yn y Gwaith Maes nad oeddent yn gyfarwydd ag ef.

4.41 Argymhellion:

- Bydd adran “Help” benodol, y gellir ei chyrraedd bob amser gan ddefnyddio botwm llwybr byr, sy’n cydgrynhoi’r holl ffynonellau cymorth ac arweiniad sydd ar gael, yn helpu defnyddwyr i lywio’n ddidrafferth.
- Gall nodwedd “Rhestr Termau”, sy’n cynnwys disgrifiadau o dasgau sylfaenol ac esboniadau o’r termau mwyaf cyffredin, fod yn ganllaw cyflym ac atgoffa defnyddwyr i ddewis y tasgau mwyaf addas i’w hanghenion.
- Mae’n hanfodol bod labeli botymau ac esboniadau o derminoleg yn glir. Bydd defnyddio awgrymiadau neu labeli disgrifiadol yn unol ag arfer gorau yn sicrhau bod defnyddwyr yn deall swyddogaeth pob botwm ac ystyr term heb ddryswch nac ansicrwydd.
- Bydd mynediad uniongyrchol at y modiwl e-ddysgu o fewn ‘Rheoli Fy CPH’ yn cynyddu ei amlygrwydd ac yn helpu defnyddwyr i lywio a chwblhau’r tasgau a ddymunir.
- Bydd datblygu adran Cwestiynau Cyffredin yn darparu atebion cyflym a syml i gwestiynau sy’n codi’n aml gan ddefnyddwyr.

**Fframiau gwifren a phrototeipiau rhyngweithiol**

4.42 Crëwyd fframiau gwifren a phrototeipiau rhyngweithiol i gyflwyno argymhellion ar gyfer fersiwn well o’r platfform yn y dyfodol mewn modd gweledol. Glasbrintiau gweledol sylfaenol yw fframiau gwifren sy’n cyfleu tudalen we neu ryngwyneb unigol, y gellir eu cysylltu â’i gilydd wedi hynny i greu prototeip rhyngweithiol.

Dyluniwyd y rhain i amlygu awgrymiadau allweddol ar gyfer goresgyn rhwystrau craidd, gyda'r nod o wella defnyddioldeb a mynd i'r afael â phroblemau cyffredinol profiad y defnyddiwr.


4.43 Mae'n bwysig nodi nad oedd yr asesiad o brofiad y defnyddiwr (a ddefnyddiwyd i ddatblygu'r fframiau gwifren) wedi'i seilio ar brofi uniongyrchol gan ddefnyddwyr na thaith unigol lawn o'r platfform. Oherwydd hyn, dylid ystyried yr argymhellion a'r fframiau gwifren yn syniadau cychwynnol a glasbrintiau gweledol, a byddai angen eu dilysu a'u profi ymhellach gan ddefnyddwyr cyn symud ymlaen i'w gweithredu (gweler hefyd yr *ymwadiad ar gyfer fframiau gwifren* er gwybodaeth).

4.44 Amlinellir isod fframiau gwifren sy'n rhoi'r newidiadau awgrymedig ar waith. Mae pob ffrâm wifren yn amlygu'r newidiadau mwyaf amlwg i wella defnyddioldeb 'Rheoli Fy CPH' a phrofiad defnyddwyr ohono ar draws y pedwar categori rhwystrau a amlygwyd: arweiniad, llywio, cysondeb, a phrofiad y defnyddiwr. Mae'r ddolen i brototeip rhyngweithiol sy'n arddangos yr awgrymiadau ar gael yma.

*Ffrâm Wifren 1: Cael at Reoli Fy CPH*

4.45 Ar hyn o bryd, gall defnyddwyr fewngofnodi i 'Reoli Fy CPH' trwy RPW Ar-lein yn unig, a gyrhaeddir yn anuniongyrchol o un o dudalennau gwe Llywodraeth Cymru. O ganlyniad, mae'n gymhleth i ddarpar ddefnyddwyr ddod o hyd i'r platfform ac fe allai achosi dryswch. Un ffordd o fynd i'r afael â hyn yw creu porth penodol, ar wahân ar gyfer y platfform, sy'n caniatáu i ddefnyddwyr gael ato'n syth. Fel arall, mae Ffigur 1 yn awgrymu gosodiad gwell ar gyfer tudalen we bresennol Llywodraeth Cymru, sy'n darparu man cychwyn mwy eglur ar gyfer mewngofnodi i'r platfform ac yn ei gwneud yn fwy amlwg sut i gael at y platfform.

Ffigur 4. Cael at Reoli Fy CPH





*Ffrâm Wifren 2: Tudalen lanio sy'n cynnwys llwybrau gweithredu clir ac arweiniad wedi'i gydgrynhoi*


4.46 Mae'r prif nodweddion a gyflwynir fel a ganlyn:

1. Dau fan cychwyn clir (sy'n gweithredu fel botymau) ar gyfer prif lwybrau'r platfform: i) Creu CPH newydd neu ii) Rheoli CPH sy'n bodoli. Mae'r ddau fan cychwyn yn dangos y camau gweithredu sy'n rhan o bob llwybr, er mwyn rhoi opsiynau clir i'r defnyddiwr o ran y camau sydd ar gael.
2. Esboniadau (a ddangosir trwy hofran dros destun neu drwy glicio arnynt) o derminoleg neu dasgau penodol i helpu defnyddwyr newydd i ymgyfarwyddo â'r platfform neu atgoffa defnyddwyr mwy mynych.
3. Help: Mae'r botwm help yn y gornel dde uchaf wedi'i ddylunio i gynnwys pob math o gymorth sydd ar gael wedi'i gydgrynhoi mewn un lleoliad. Mae'r botwm yn bresennol ac ar gael bob amser yn yr un man i wella cysondeb y system.
4. Rhestr termau: Mae'r nodwedd hon yn cynnwys dadansoddiad o dasgau sylfaenol gyda disgrifiadau ac esboniadau byr o derminoleg sylfaenol. Gellir ei defnyddio fel canllaw cyflym sydd ar gael ar unwaith o fewn y modd help.
5. Gallai pob tudalen elwa o ddisgrifiadau byr o'i diben a'i hymarferoldeb sylfaenol.


Ffigur 5. Tudalen lanio enghreifftiol




Ffigur 6. Modd help



Ffigur 7. Rhestr termau



**Geirfa**

Dyma restr o dermau a thasgau allweddol yn 'Rheoli fy CPH'. I gael diffiniadau llawn, cyfeiriwch at y canllawiau ffurfiol.

| Mathau CPH ar gyfer creu CPH | Disgrifiad |
|---|---|
| CPH Parhaol | Dylid defnyddio hwn ar gyfer unrhyw dir a fydd yn cael ei reoli gennych chi am flwyddyn neu fwy. Gellir cau CPH Parhaol yn hawdd pan nad oes eu hangen mwyach (gweler isod). |
| CPH dros dro | Dylid defnyddio hwn ar gyfer tir a fydd yn cael ei reoli gennych chi am lai na 365 diwrnod. Os ydych yn cymryd tir yn rheolaidd (e.e. bob haf), efallai y byddwch am wneud tCPH sy'n 'ailadrodd' fel ei fod yn dod yn weithredol ar gyfer dyddiadau penodol bob blwyddyn (e.e. bob haf). Mae gan tCPH ei rif CPH ei hun ac mae angen cadw at stopiau symud 6 diwrnod |


| Tasgau eraill | Disgrifiad |
|---|---|
| Trawsnewid CPH | Cyflwynodd Llywodraeth Cymru system CPH newydd yn 2016, ond nid yw 40% o CPHs wedi'u trosglwyddo eto. Mae trosglwyddo yn cynnwys llu o fanteision – gan gynnwys radiws o 10 milltir ar gyfer symudiadau anghofrestredig yn hytrach na 5 milltir. I drosglwyddo, cliciwch ar 'Rheoli CPH Presennol' ac yna 'Golygu' – gallwch wylio'r fideo hwn am ragor o wybodaeth. |
| Ychwanegu neu tynnu tir | Os dymunwch ychwanegu tir at CPH yn barhaol, dylech ychwanegu tir at y CPH hwnnw'n uniongyrchol – fel y dangosir yn y fideo hwn. Os hoffech ychwanegu tir comin at CPH, darllenwch y Canllawiau Rheoli fy CPH. Os dymunwch dynnu tir o CPH, gallwch wneud hyn trwy glicio ar 'Golygu' wrth ymyl y CPH. |
| Creu Cysylltiad Tir Dros Dro (TLA) | Gellir defnyddio hwn ar gyfer tir o fewn 10 milltir i CPH presennol yr ydych yn ei reoli. Bydd hyn yn ychwanegu'r tir at eich CPH presennol am hyd at 364 diwrnod. Gallwch wneud i'ch TLA 'ailadrodd' fel ei fod yn weithredol ar gyfer dyddiadau penodol bob blwyddyn. |
| Cau CPH | Os nad oes angen CPH arnoch mwyach neu os nad ydych yn ei ddefnyddio, gallwch ei gau. Bydd hyn yn dileu'r CPH. Gellir ei wneud trwy 'Rheoli CPH Presennol' a chlicio ar 'Cau'. |

*Ffrâm Wifren 3: Rheoli CPH*

4.47 Mae'r prif nodweddion a gyflwynir fel a ganlyn:

1. Gwnaed newidiadau bach i'r rhyngwyneb defnyddiwr y gellir eu hystyried ymhellach, er enghraifft cynyddu maint botymau a'r ffont. Mae'r blwch gwyrdd yn cynrychioli pob rhif CPH sydd ar gael. Trwy glicio ar y blwch, mae'r tir sydd wedi'i gynnwys yn y CPH hwnnw yn cael ei amlygu ar y map.
2. "Blwch offer": Awgrymir casglu'r holl fotymau ynghyd mewn un lle ar y map (yn y gornel dde uchaf), er mwyn hwyluso llywio a chysondeb.
3. Gall teitlau clir helpu defnyddwyr i adnabod swyddogaeth pob nodwedd yn rhwydd. Er enghraifft, yn y ffrâm wifren hon, mae "Rhifau CPH sydd ar gael" uwchben yr adran unigol.
4. Mae eiconograffeg syml a hawdd ei hadnabod yn helpu defnyddwyr i ddeall statws eu rhifau CPH. Gellir ychwanegu esboniadau yma hefyd i helpu i ddeall ystyr yr eicon.

Ffigur 8. Newidiadau awgrymedig i ryngwyneb defnyddiwr Rheoli Fy CPH




*Ffrâm Wifren 4: Modiwl tasgau a map parhaus*


4.48 Mae’r prif nodweddion a gyflwynir fel a ganlyn:

1. Modiwl tasgau: Datgelodd data a gasglwyd yn ystod y cam cwmpasu fod darpar ddefnyddwyr ‘Rheoli Fy CPH’ o’r farn bod y platfform yn ddryslyd ac yn aneglur, gan achosi iddynt ymddieithrio. I wella llif tasgau, argymhellwn greu modiwl tasgau a fydd yn gweithredu fel lleoliad sefydlog lle mae pob tasg ar y platfform yn dechrau ac yn cael ei chwblhau. Pan fydd y defnyddiwr wedi dewis cam, bydd y botwm “Parhau” yn cael ei actifadu i symud ymlaen i’r un nesaf. Gall y defnyddiwr fynd yn ôl i’r cam blaenorol, hefyd.
2. Map parhaus: Er mwyn goresgyn y problemau ymarferoldeb a llwytho a achosir gan ail-lwytho’r map yn gyson, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â chysylltiadau gwan â’r rhyngrwyd, cynigiwn wneud y map yn barhaus. Mae hyn yn golygu y bydd y map yn nodwedd sefydlog sy’n llwytho’n barhaus i hwyluso ymarferoldeb.
3. Bar cynnydd: Er mwyn gwella gweledd y system a sicrhau bod y defnyddiwr bob amser yn ymwybodol o statws tasg, awgrymwn gynnwys bar cynnydd. Mewn prosesau aml-gam, fel cyflwyno ceisiadau, mae dangosyddion gweledol yn helpu i reoli disgwyliadau defnyddwyr a’u hannog i gwblhau’r dasg.
4. Botwm gadael: Cynhwyswyd botwm gadael yn y dyluniad i gynnig “dihangfa” i’r defnyddiwr os nad yw’n dymuno cwblhau tasg. Pan fydd defnyddiwr yn

gwasgu’r botwm hwn, bydd blwch testun rhybudd yn agor sy’n rhoi gwybod iddo y bydd ei gynnydd yn cael ei golli ac yn gofyn iddo gadarnhau ei fod eisiau gadael.

5. Botymau dewis: Rydym wedi disodli cwymplenni â botymau, pan nad oes llawer o opsiynau ar gael, i gynyddu cyflymder, gwelededd, a hygyrchedd.


Ffigur 9. Modiwl tasgau a map parhaus enghreifftiol




*Ffrâm Wifren 5: Osgoi gwallau*

4.49 Mae’r ffrâm wifren hon yn dangos dull dylunio i atal a lleihau gwallau. Yn benodol, mae’n dangos sut bydd y system yn arwain y defnyddiwr yn rhagweithiol trwy ddangos rhybudd, pan fydd angen, os yw’n hepgor camau. Os bydd y defnyddiwr yn ceisio dewis llain o dir ar y map cyn ateb y cwestiwn sy’n ofynnol, bydd y system yn rhoi rhybudd clir bod rhaid iddo ateb y cwestiwn sy’n ofynnol yn gyntaf cyn rhyngweithio â’r map. Trwy wneud hynny, gall y rhyngwyneb atal camau gweithredu annilys, gan sicrhau llif tasgau llyfn a gwella profiad y defnyddiwr yn gyffredinol.


Ffigur 10. Awgrymiadau ar gyfer osgoi gwallau




*Ffrâm Wifren 6: Gosodiad y ffenestr grynhoi*

4.50 Crëwyd y ffrâm wifren hon gyda'r nod o wella gosodiad y ffenestr grynhoi. Mae'r holl fanylion CPH wedi'u cynnwys mewn blwch yn fertigol, i'w gwneud yn haws eu darllen, a disodlwyd blychau ticio wedi'u dadactifadu ag eiconograffeg glir (ticiau gwyrdd a chroesau coch).

Ffigur 11. Newidiadau awgrymedig i osodiad y ffenestr grynhoi



## 5. Argymhellion

5.1 Mae'r adolygiad hwn wedi'i lywio gan ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid, gan gynnwys cyfweliadau â phartneriaid cyflawni ac arolwg, grwpiau ffocws, a gweithdai gyda defnyddwyr 'Rheoli Fy CPH'. Roedd hyn yn rhan allweddol o'r argymhellion polisi a'r archwiliad o brofiad y defnyddiwr.

5.2 Mae'n ddefnyddiol crynhoi'r cyfyngiadau technegol a drafodwyd ym mharagraffau 4.1 i 4.8 cyn amlygu casgliadau'r adroddiad hwn. Yn gyntaf, nid oedd modd cael at 'Reoli Fy CPH' yn uniongyrchol trwy gyfrif ffug, sy'n golygu bod yr holl argymhellion wedi'u seilio ar ffynonellau amgen, fel y pecyn e-ddysgu ac arddangosiad gan RPW Ar-lein. Yn ail, bwriedir i'r fframiau gwifren a ddarperir yn yr adroddiad hwn fod yn arweiniad gweledol neu lasbrintiau yn unig yn hytrach na rhyngwynebau caboledig sy'n barod i'w cynhyrchu. Yn drydydd, ac yn bwysicaf ar gyfer yr adran hon, mater i Lywodraeth Cymru, partneriaid cyflawni, a rhanddeiliaid ehangach yw penderfynu mabwysiadu unrhyw un o'r argymhellion hyn neu bob un ohonynt. Yn olaf, mae unrhyw amcangyfrifon o ymdrech dechnegol a ddarperir yn yr adroddiad hwn yn ganllawiau dangosol, lefel uchel y bwriedir iddynt gyfleu'r cymhlethdod cymharol a'r ymdrech weithredu sy'n gysylltiedig â gwelliannau awgrymedig i'r rhyngwyneb defnyddiwr/profiad y defnyddiwr, ac nid ydynt wedi cael eu dilysu gan RPW Ar-lein.

**Coladu argymhellion yr adolygiad o Rifau Daliadau**

5.3 Gwneir yr **argymhellion polisi** canlynol ym Mhennod 3 yr adroddiad.

- **Argymhelliad 1:** Dileu'r gofyniad i dir comin fod gerllaw Prif Leoliad Cynhyrchu (PPL) mewn CPHau wedi'u trosi, yn amodol ar Asesiad Risg Milfeddygol boddhaol.
- **Argymhelliad 2:** Cyflwyno'r gallu i CPHau dros dro 'ailadrodd' bob blwyddyn, fel sy'n wir ar hyn o bryd ar gyfer Cysylltiadau Tir Dros Dro.
- **Argymhelliad 3:** Rhoi'r un rhif i CPHau dros dro ailadroddol ac Unedau Cwarantin, yn hytrach na rhifau newydd bob tro y cânt eu hadnewyddu.
- **Argymhelliad 4:** Cyflwyno terfyn amser o flwyddyn i drosi i fersiwn ddiweddaraf rhifau a rheolau CPH. Dylai hyn ddilyn gweithredu Argymhelliad 1, datblygu pecyn cymorth, a dechrau ar adeg sy'n addas i Lywodraeth Cymru a'r diwydiant
- **Argymhelliad 5:** Ymchwilio ymhellach i'r potensial i greu 'Siop Un Stop' ar gyfer cyhoeddi rhifau CPH a rhifau diadell a buches yng Nghymru.

5.4 Gwneir yr **argymhellion technegol** canlynol ym Mhennod 4 yr adroddiad. Bydd adolygu'r fframiau gwifren a'r prototeipiau rhyngweithiol ochr yn ochr â'r argymhellion hyn yn helpu i ddeall a delweddu argymhellion technegol allweddol.

- **Argymhelliad 6:** Gall cynnwys dangosyddion cynnydd gweledol, fel bariau cynnydd, helpu i ddangos i ddefnyddwyr pa mor bell maen nhw wedi'i gyrraedd yn y broses. Mewn proses aml-gam, fel cyflwyno ceisiadau, mae hyn yn helpu i reoli disgwyliadau defnyddwyr ac yn eu hannog i gwblhau'r dasg.
- **Argymhelliad 7:** Er mwyn helpu'r defnyddiwr i ddilyn y trywydd iawn, dylid rhoi dau opsiwn gwahanol iddo wrth agor y wefan sy'n arwain at y tasgau a'r camau canlynol: i) creu rhif CPH newydd a ii) rheoli rhif CPH presennol.
- **Argymhelliad 8:** Diffinio llifoedd tasgau clir i arwain defnyddwyr trwy bob proses.
- **Argymhelliad 9:** Byddai'n fuddiol i brofiad y defnyddiwr petai nodwedd negeseuon ar wahân yn cael ei chreu ar gyfer 'Rheoli Fy CPH' am y cyfnod y mae'r platfform yn parhau i fod wedi'i integreiddio ag RPW Ar-lein. Yn y tymor hir, bydd yr argymhelliad blaenorol yn effeithiol ar unwaith os bydd gan y platfform borth mewngofnodi ar wahân a'i fod yn annibynnol o RPW Ar-lein.
- **Argymhelliad 10:** Bydd arddangos rhif neu enw'r bloc wrth ei ddewis neu hofran drosto ar y map yn gwneud statws y system yn fwy amlwg.
- **Argymhelliad 11:** Bydd defnyddio iaith syml ac osgoi jargon yn hwyluso profiad y defnyddiwr wrth iddo ryngweithio â'r platfform, ac felly hefyd cynnwys esboniadau neu ddisgrifiadau byr pan ddefnyddir terminoleg. Bydd cynnig 'Rheoli Fy CPH' mewn Cymraeg clir neu lai technegol yn caniatáu i bobl ddefnyddio'r platfform yn eu iaith o ddewis.
- **Argymhelliad 12:** Cynnwys "diangfeydd" gweladwy a hygyrch i atal proses. Dylai'r dyluniad hefyd gynnwys neges sy'n rhybuddio defnyddwyr os byddant yn gadael y broses, byddant yn colli popeth maen't wedi'i fewnbynnu hyd yma. Os oes modd, gall y dyluniad gefnogi swyddogaethau dadwneud ac ailwneud a llwybrau byr ar gyfer defnyddwyr mwy profiadol sy'n deall y technoleg.
- **Argymhelliad 13:** Gwneud y gwahaniaethau rhwng mathau o grynodebau'n fwy eglur trwy newid teitlau a thestun disgrifiadol, ychwanegu awgrymiadau neu labeli disgrifiadol, a defnyddio lliwiau i'w gwneud yn fwy greddfol. Defnyddio teitlau, terminoleg, botymau ac eiconau cyson yn y system drwyddi draw.
- **Argymhelliad 14:** Bydd defnyddio arferion enwi a therminoleg cyson ar y platfform drwyddo draw yn sicrhau llywio di-dor. Er enghraifft, fe allai fod yn fwy clir petai'r hysbysiad cadarnhau ar gyfer cais a gyflwynwyd yn crybwyll "Gohebiaeth", hefyd. Fe allai'r hysbysiad ddweud, "Bydd copi o'ch cais yn cael ei

arbed yn eich Negeseuon. Gallwch ddod o hyd i’ch negeseuon o dan Ohebiaeth.” Fe allai hyn helpu defnyddwyr i wybod ble mae gwybodaeth bwysig wedi’i lleoli a sut mae’r platfform wedi’i strwythuro.

- **Argymhelliad 15:** Dylid cyfleu cyfyngiadau’n gynharach yn y broses i atal gwallau. Er enghraifft, gallai’r map gynnwys hidlydd ar gyfer lleiniau tir cofrestredig sydd ddim ar gael, felly ni fydd modd dewis y rhain o’r dechrau.
- **Argymhelliad 16:** Cynnal cysondeb o ran termau a helpu’r defnyddiwr i ddeall pa wybodaeth sy’n ofynnol i gwblhau tasg.
- **Argymhelliad 17:** Gall esboniadau clir, awgrymiadau, a chymorth cyd-destunol hwyluso’r broses yn fawr a helpu defnyddwyr i gyflawni eu nodau’n fwy effeithlon.
- **Argymhelliad 18:** Byddai’n gwella personoli y broses petai defnyddwyr yn gallu ailenwi neu drefnu blociau’n ddilyniannol.
- **Argymhelliad 19:** Gellir personoli’r platfform yn ôl faint o brofiad sydd gan y defnyddiwr ohono. Er enghraifft, gellir rhoi opsiwn “golwg e-ddysgu” i ddefnyddiwr newydd sy’n ei lywio trwy bob tasg, a gall defnyddiwr profiadol gael camau wedi’u harbed neu fod adran ffefrynnau ar gyfer tasgau a gyflawnir yn aml.
- **Argymhelliad 20:** Bydd sicrhau bod botymau ac elfennau rhyngwyneb defnyddiwr wedi’u fformatio, eu henwi, a’u lleoli’n gyson yn lleihau dryswch ac yn gwella defnyddioldeb.
- **Argymhelliad 21:** Mewn prosesau aml-gam, fel cyflwyno ceisiadau, gall dangosyddion cynnydd gweledol helpu i reoli disgwyliadau defnyddwyr a’u hannog i gwblhau’r dasg. Gellir gweithredu hyn trwy gynnwys bar cynnydd i ddangos i ddefnyddwyr ba mor bell maen nhw wedi’i gyrraedd yn y broses.
- **Argymhelliad 22:** Cymhwyso egwyddorion dylunio, fel agosrwydd (casglu eitemau cysylltiedig ynghyd mewn grŵp) a thebygrwydd (eitemau sydd â nodweddion tebyg ac y tybir eu bod yn gysylltiedig), i wella hierarchaeth weledol a llif y defnyddiwr.
- **Argymhelliad 23:** Gellir gwella’r dyluniad gweledol i gyfateb i ddisgwyliadau defnyddwyr a’u helpu i ddod o hyd i bethau a llywio. Gall alinio testun yn briodol, maint y ffont, teip, a gofodau hybu eglurder, darllenadwyedd, a hygyrchedd.
- **Argymhelliad 24:** Defnyddio cyfuniadau lliwiau cyferbynnedd uchel i sicrhau llywio hygyrch.
- **Argymhelliad 25:** Gall eiconau cyfarwydd a hawdd eu hadnabod leihau’r llwyth gwybyddol a helpu defnyddwyr i adnabod eu swyddogaethau’n gyflym.

- **Argymhelliad 26:** Gall awgrymiadau neu destun hofran i ddisgrifio'r gwall helpu i adnabod a chywiro gwallau. Er enghraifft, gellir osgoi gwall dewis llain o dir cyn ateb cwestiynau gofynnol trwy gyflwyno neges rybuddio neu annog glir.
- **Argymhelliad 27:** Byddai tywys defnyddwyr trwy'r dilyniant cywir, fel amlygu cwestiynau heb eu hateb neu ddarparu cyfarwyddiadau gam wrth gam, yn eu helpu i gwblhau'r dasg yn llwyddiannus.
- **Argymhelliad 28:** Bydd adran "Help" benodol, y gellir ei chyrraedd bob amser gan ddefnyddio botwm llwybr byr, sy'n cydgrynhoi'r holl ffynonellau cymorth ac arweiniad sydd ar gael, yn helpu defnyddwyr i lywio'n ddidrafferth.
- **Argymhelliad 29:** Gall nodwedd "Rhestr Termau", sy'n cynnwys disgrifiadau o dasgau sylfaenol ac esboniadau o'r termau mwyaf cyffredin, fod yn ganllaw cyflym ac atgoffa defnyddwyr i ddewis y tasgau mwyaf addas i'w hanghenion.
- **Argymhelliad 30:** Mae'n hanfodol bod labeli botymau ac esboniadau o derminoleg yn glir. Bydd defnyddio awgrymiadau neu labeli disgrifiadol yn unol ag arfer gorau yn sicrhau bod defnyddwyr yn deall swyddogaeth pob botwm ac ystyr term heb ddryswch nac ansicrwydd.
- **Argymhelliad 31:** Bydd mynediad uniongyrchol at y modiwl e-ddysgu o fewn 'Rheoli Fy CPH' yn cynyddu ei amlygrwydd ac yn helpu defnyddwyr i lywio a chwblhau'r tasgau a ddymunir.
- **Argymhelliad 32:** Bydd datblygu adran Cwestiynau Cyffredin yn darparu atebion cyflym a syml i gwestiynau sy'n codi'n aml gan ddefnyddwyr.

## 6. Atodiadau

6.1 Mae'r adran hon yn cynnwys cyfres o Atodiadau y gellir eu defnyddio i gyd-destunoli'r canfyddiadau a'r argymhellion. Yn fwy penodol, mae'r canlynol wedi'u cynnwys:

- Atodiad A: Canfyddiadau o arolwg defnyddwyr 'Rheoli Fy CPH'
- Atodiad B: Canfyddiadau o grwpiau ffocws gyda defnyddwyr 'Rheoli Fy CPH'
- Atodiad C: Canfyddiadau o'r gweithdai adborth ar argymhellion gyda defnyddwyr 'Rheoli Fy CPH'
- Atodiad Ch: Canfyddiadau o gyfweliadau â phartneriaid cyflawni
- Atodiad D: Canfyddiadau o grŵp ffocws gyda rhanddeiliaid LIDAG

**Atodiad A: Canfyddiadau o arolwg defnyddwyr 'Rheoli Fy CPH'**

6.2 Roedd arolwg ar agor o 9 Ionawr 2025 tan 14 Chwefror 2025. Y gynulleidfa darged oedd defnyddwyr y system 'Rheoli Fy CPH', a gyrhaeddwyd yn bennaf trwy 'neges ddarlledu' o fewn swyddogaeth negesu RPW Ar-lein a anfonwyd ar 10 Ionawr 2025.

6.3 Roedd yr arolwg yn cynnwys 13 cwestiwn ymchwil a chwestiwn i gadarnhau cytundeb â'r telerau ac amodau. Roedd y cwestiynau hyn fel a ganlyn:

1) Cadarnhewch eich bod wedi darllen a deall yr hysbysiad preifatrwydd ar gyfer yr arolwg hwn, a nodwch a ydych yn fodlon i'ch ymatebion gael eu dyfynnu'n ddienw mewn allbynnau ymchwil.
2) Pa fath(au) o dda byw ydych chi'n eu cadw, yn bennaf?
3) Pa fersiwn o CPH ydych chi'n ei defnyddio?
4) Yn eich geiriau eich hun, a allech chi ddisgrifio beth yw diben rhifau CPH? Ystyriwch sut maen nhw'n cael eu defnyddio mewn gweithrediadau da byw, cydymffurfio, ac adrodd.
5) Pa rai o nodweddion 'Rheoli Fy CPH' sy'n fwyaf defnyddiol i chi?
6) Pa mor dda mae rhifau CPH yn cefnogi'ch gweithrediadau cadw da byw a'ch gofynion cydymffurfio? Esboniwch eich atebion, os gallwch.
7) Beth yw'r prif heriau rydych chi'n eu profi wrth ddefnyddio 'Rheoli Fy CPH' (e.e., problemau technegol, eglurder rheolau)?
8) Beth yw'r prif heriau rydych chi'n eu profi wrth ddefnyddio rhifau CPH mewn systemau eraill (e.e., EIDCymru, BCMS, sioeau, ac arwerthiannau)?

9) Ydych chi'n credu bod digon o arweiniad i gefnogi ceidwaid da byw wrth ddefnyddio rhifau CPH a 'Rheoli Fy CPH'? Os na, sut gellid gwella'r arweiniad?
10) Os ydych chi wedi creu neu ddefnyddio 'CPH dros dro', disgrifiwch eich profiad o ddefnyddio'r swyddogaeth hon (e.e., rhwyddineb sefydlu, eglurder rheolau, unrhyw heriau).
11) Os ydych chi wedi creu neu ddefnyddio 'Cysylltiad Tir Dros Dro', disgrifiwch eich profiad o ddefnyddio'r swyddogaeth hon (e.e., rhwyddineb sefydlu, eglurder rheolau, unrhyw heriau).
12) Ydych chi'n credu bod y gwasanaethau cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru (y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm) a Thaliadau Gwledig Cymru yn ddigonol? Sut gellid eu gwella?
13) Pa newidiadau neu welliannau fyddai'n gwneud prosesau CPH yn haws i chi eu defnyddio?
14) A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu rhannu ynglŷn â phrosesau, systemau, neu arweiniad CPH?

6.4 Cafwyd cyfanswm o 159 o ymatebion, ond dim ond 137 ohonynt a gytunodd â'r telerau ac amodau a ganiataodd iddynt gwblhau'r arolwg. Disgrifir y rhain isod fel 'ymatebion dilys'. Cynhaliwyd yr arolwg ar Microsoft Forms. Defnyddiwyd dyfyniadau i ddangos safbwyntiau gyda mân addasiadau i wella sillafu, gramadeg, a darllenadwyedd.

6.5 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa fathau o dda byw maen nhw'n eu cadw yn bennaf, gydag opsiwn i nodi sawl gwahanol fath o dda byw. O'r 137 o ymatebion dilys, roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

| **Da byw** | **Nifer yr ymatebion a oedd yn cynnwys cyfeiriad at dda byw o'r math hwn** |
|---|---|
| Defaid | 103 |
| Gwartheg | 57 |
| Dofednod | 7 |
| Moch | 5 |
| Ceffylau | 4 |
| Arall | 6 (gan gynnwys asynnod, alpacaod, a gwenyn) |
| Dim da byw neu ddim ymateb | 3 |

6.6 Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd ddisgrifio pa fersiwn o CPHau maen nhw'n eu defnyddio ar hyn o bryd. Diben hyn oedd amlygu i ba raddau yr oedd yr ymatebwyr wedi 'trosi' eu CPH i'r system newydd a phrofi ymwybyddiaeth o drosi. O'r 137 o ymatebion dilys, dywedodd 91 (66%) nad oeddent yn siŵr pa fersiwn roeddent yn ei defnyddio, dywedodd 22 (16%) eu bod yn defnyddio fersiwn hŷn CPHau ac nad oeddent wedi trosi eu CPH, a dywedodd 19 (14%) eu bod yn defnyddio fersiwn newydd CPHau ac wedi trosi eu CPH. Rhoddodd pump (4%) ymatebion 'eraill'; dywedodd dau o'r o'r rhain eu bod yn defnyddio'r ddau gan eu bod yn asiant, dywedodd un ei fod yn defnyddio trwyddedau symud papur, dywedodd un y byddai'n well ganddo ddefnyddio papur ond bod rhaid iddo ddefnyddio system ar-lein, a dywedodd un nad oes ganddo CPH. O ganlyniad i'r nifer isel o ymatebwyr a allai ddatgan a oeddent wedi trosi ai peidio, ni fydd y dadansoddiad hwn o ymatebion i'r arolwg yn rhannu ymatebion eraill yn ôl y newidyn hwn.

6.7 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg ddisgrifio diben allweddol rhifau CPH. Roedd y themâu a godwyd fynychaf gan yr ymatebwyr fel a ganlyn:

- Cyfeiriodd mwyafrif yr ymatebion at y gallu i olrhain a rheoli clefydau. Dywedodd ymatebwyr a gododd y thema hon fod rhifau CPH yn cael eu defnyddio'n bennaf i olrhain symudiadau da byw, nodi lleoliad anifeiliaid, a rheoli achosion o glefydau. Dyfynnir rhai ymatebion sy'n cyfeirio at y thema hon isod:
    - "Helpu i olrhain da byw a helpu i atal a rheoli clefydau." (Ceidwad Gwartheg)
    - "I wirio faint o dda byw sydd o gwmpas. I allu rheoli achosion o glefydau mewn ardaloedd. I reoli symud a gwaredu da byw. I allu cynhyrchu data a gwybodaeth reoli ar gyfer arolygiadau." (Ceidwad Defaid)
- Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at adnabod lleiniau o dir fel thema allweddol. Dywedodd y rheiny fod rhifau CPH yn adnabod ffermydd, lleiniau o dir, a daliadau da byw yn unigryw, gan alluogi cyfathrebu clir a chydymffurfio â rheoliadau. Roedd yn ymddangos bod rhai o'r ymatebwyr a gododd y thema hon yn credu bod rhifau CPH yn cael eu defnyddio i weinyddu'r Taliad Sylfaenol neu adnabod ffermydd, sydd â chysylltiad agosach â gwasanaethau eraill RPW Ar-lein, fel 'Rheoli fy Nhir'. Dyfynnir rhai ymatebion a gododd y thema hon isod:

- “I adnabod y fferm a’r tir cysylltiedig” (Ceidwad Defaid)
- “Mae’n lleoli’r fferm” (Ceidwad Gwartheg)
- “Symudiadau a’r cynllun Taliad Sylfaenol, archebu tagiau clust, a gweithgareddau cyswllt ffermio” (Ceidwad Defaid)

- Dywedodd rhai o’r ymatebwyr i’r arolwg hwn nad yw rhifau CPH yn cyflawni unrhyw ddiben i ffermwyr na’r gymdeithas ehangach.
  - “Nid oes gennyf syniad beth yw diben rhifau CPH." (Ceidwad Geifr)
  - "Dim syniad." (Ceidwad Ceffylau a Defaid)

6.8 Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio’r nodweddion mwyaf defnyddiol o fewn ‘Rheoli Fy CPH’, cododd yr ymatebwyr amrywiaeth o themâu. Dywedodd grŵp mawr mai anaml yr oeddent yn defnyddio ‘Rheoli Fy CPH’, neu byth, ac felly ni wnaethant nodi nodweddion defnyddiol. Disgrifiodd grŵp arall ganfyddiadau negyddol o ‘Reoli Fy CPH’, gan gynnwys ymatebion fel:

- “Nid wyf wedi’i ddefnyddio, roedd yn rhy gymhleth.” (Ceidwad Defaid)
- “Mae rheoli fy CPH yn rhy dechnegol i mi.” (Ceidwad Defaid a Gwartheg)
- “Roeddwn i’n meddwl bod fy CPH yn sefydlog. Nid oes gennyf syniad beth sydd i’w ‘Reoli’.” (Ceidwad Defaid)

Dywedodd grŵp ychydig yn llai o’r ymatebwyr fod y system yn gweithio’n dda iawn, ond ni roddwyd llawer o fanylion:

- “Popeth – rwy’n credu ei bod yn dda iawn.” (Ceidwad Defaid)
- “Cymorth gwych. Ffordd hawdd o gyflenwi gwybodaeth am unrhyw newidiadau ar y daliad.” (Ceidwad Gwartheg)

Cyfeiriodd rhai o’r ymatebwyr at nodweddion penodol yr oeddent yn eu gwerthfawrogi o fewn ‘Rheoli Fy CPH’. Roedd y rhain yn cynnwys y map,

rhwyddineb ychwanegu lleiniau o dir, a rhwyddineb defnyddio Cysylltiadau Tir Dros Dro (TLAau).[1]

- "Gwneud cais am rifau daliad dros dro a TLAau." (Ceidwad Defaid a Gwartheg)
- "Ychwanegu tir tac at CPH presennol." (Ceidwad Defaid)
- "Map ar-lein, offeryn mesur ar gyfer maint caeau a hyd ffiniau." (Ceidwad Geifr a Gwartheg)
- “Mapiau.” (Ceidwad Defaid)
- "Ar gael yn syth." (Ceidwad Defaid a Gwartheg)
- "Cyfleustra ar-lein." (Ceidwad Defaid)
- "Rwy’n defnyddio ‘Rheoli Fy CPH’ ar-lein ac mae’n ddefnyddiol. Nid wyf yn hoffi tynnu llinellau ar fapiau ac rwyf fel arfer yn ffonio RPW i gael arweiniad. Maen nhw’n dda iawn ac mae rhywun yno i helpu bob amser." (Ceidwad Defaid)
- "Rydyn ni wedi bod â’r rhif hwn ers blynyddoedd ac mae’n rhwydd ei gofio." (Ceidwad Defaid a Gwartheg)

Amlygodd rhai defnyddwyr heriau penodol wrth ymateb i’r cwestiwn hwn, sef llwytho mapiau yn bennaf, ymhlith eraill.

- "Mae’n eithaf anodd wrth ychwanegu lleiniau ar wahân oherwydd yr unig gyfeiriad a roddir atynt yw rhif Arolwg Ordnans y cae, ni roddir enw na disgrifiad. Byddai’n fwy defnyddiol o lawer petai’n rhoi’r ‘enw’ neu hyd yn oed y lleoliad." (Ceidwad Defaid a Gwartheg)
- "Nid yw’r mapiau’n llwytho, felly mae’n anodd ychwanegu tir neu CPH dros dro." (Ceidwad Defaid)

[1] O’r saith ymatebwr a grybwyllodd yn benodol eu bod yn gwerthfawrogi TLAau, sydd ar gael yn y fersiwn newydd, wedi’i throsi o ‘Reoli Fy CPH’ yn unig, dim ond un a ddywedodd ei fod wedi trosi ei CPH wrth ymateb i gwestiwn cynharach. At hynny, dywedodd un ei fod yn defnyddio’r fersiwn hŷn. Roedd y gweddill yn ansicr ynghylch pa fersiwn roeddent yn ei defnyddio. Mae hyn yn dangos ymhellach bod ceidwaid yn ansicr a ydynt wedi trosi ai peidio.

- "Y mapiau, ond nid oes gennyf syniad sut i'w rheoli. Mae'n rhy anodd o lawer i mi ac mae cyflymder band eang yn gyfyngedig yma." (Ceidwad Defaid)

6.9 Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r arolwg ddisgrifio pa mor dda mae rhifau CPH yn cefnogi eu gweithrediadau cadw da byw a'u gofynion cydymffurfio. Mynegodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ganfyddiadau cadarnhaol o rifau CPH, gan ystyried eu bod yn hanfodol, yn syml, ac yn effeithiol i allu olrhain, cydymffurfio, a chadw cofnodion. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod rhifau CPH yn anghenraid biwrocrataidd, ond nid oeddent yn credu eu bod yn arbennig o ddefnyddiol na chefnogol y tu hwnt i gydymffurfio. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn bod rhifau CPH yn amherthnasol, yn rhy gymhleth, neu'n ychwanegu biwrocratiaeth ddiangen at eu gweithrediadau. Roedd ymatebion o'r math hwn yn fwy cyffredin ymhlith pobl a ddisgrifiodd eu hunain fel ceidwaid 'hamdden' neu 'anifeiliaid anwes'. Cyflwynir detholiad o ddyfyniadau isod i ddangos pob thema.

- "Mae'n system hawdd ei hadnabod, y mae pob ffermwr yn gyfarwydd â hi bellach." (Ceidwad Defaid)
- "Mae'n berffaith syml, Mae fy CPH yn adnabod fy eiddo, ac os yw da byw'n symud i mewn neu allan ohono, rwy'n rhoi gwybod am hynny." (Ceidwad Defaid)
- "Mae'n rhan o'r broses sy'n ofynnol, mae'n adnabod yn unig ac nid yw'n darparu unrhyw gymorth." (Ceidwad Gwartheg a Defaid)
- "Maen nhw'n ofyniad, felly rydyn ni'n eu defnyddio." (Ceidwad Defaid)
- "Dim ond rhif ydyw mewn blwch ar ffurflenni y mae'n rhaid i mi eu llenwi." (Ceidwad Gwartheg a Defaid)
- "Dim o gwbl, mae'n ychwanegu haen arall o gymhlethdod gyda buddion amheus. Gellir adnabod ein daliad eisoes trwy'r cod post." (Ceidwad Gwartheg)
- "Mae'n sicrhau nad yw fel y gorllewin gwyllt gydag anifeiliaid yn symud i bobman yn ddireolaeth (a minnau wedi ffermio trwy glwy'r traed a'r genau a'r effaith a gafodd). Ond rwy'n gwrthwynebu cysylltu pethau sy'n

ymwneud â dofednod, mae hynny'n teimlo braidd yn wirion ac anymarferol. Sut bynnag, ie, mae'n haws na dweud enw llawn y lle a phwy ydw i ar bob ffurflen… o na, arhoswch, mae'n rhaid i mi wneud hynny hefyd o hyd. Fel arfer, mae llawer o ddyblygu gwybodaeth." (Ceidwad Moch, Defaid, Geifr, a Dofednod)

  - "Nid oes unrhyw gymorth mewn gwirionedd gan fod yr holl dda byw yn anifeiliaid anwes ac ni fyddant yn symud o'u lleoliad presennol." (Ceidwad Defaid)

6.10 Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi'r prif heriau roeddent yn eu profi wrth ddefnyddio 'Rheoli Fy CPH'. Derbyniwyd amrywiaeth o ymatebion, a'r themâu canlynol oedd y rhai mwyaf amlwg:

- Cyfeiriodd nifer uchel o'r ymatebwyr at faterion technegol a defnyddioldeb. Beirniadwyd y system gan lawer o'r ymatebwyr am fod yn hen, yn feichus, ac yn anodd ei llywio. Roedd problemau gydag offer mapio, rhewi, a rhyngwynebau defnyddiwr gwael yn gwynion cyffredin.
  - "Nid yw'n system ar-lein arbennig o hawdd ei defnyddio nac wedi'i dylunio'n dda. O ystyried y datblygiadau mewn technoleg a rhyngwyneb defnyddiwr, mae ymhell iawn ar ei hôl hi." (Ceidwad Gwartheg a Defaid)
  - "Mae'n aml yn ddiymateb. Mae'n rhaid ei bod wedi'i dylunio gan gyfrifiadur oherwydd bod cymaint o anghysondebau yn ei hiaith." (Ceidwad Defaid)
  - "Roedd tynnu llun o bwll cylchol yn heriol iawn.[2] Nid yw'r rhyngwyneb defnyddiwr yn hawdd iawn ei ddefnyddio." (Ceidwad Defaid)
  - "Mae'r wefan yn hen iawn ac yn lletchwith ei llywio. Mae'n anodd iawn dod o hyd i wybodaeth gan fod y penawdau'n anghynorthwyol iawn." (Ceidwad Gwartheg)

[2] Mae'n bosibl bod yr ymatebwr hwn wedi drysu â 'Rheoli fy Nhir', sy'n pwysleisio un o ganfyddiadau ehangach yr ymchwil, sef ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r gwahaniaethau rhwng 'Rheoli fy Nhir' a 'Rheoli Fy CPH'.

- Her arall a amlygwyd gan lawer o ddefnyddwyr 'Rheoli Fy CPH' oedd diffyg arweiniad, esboniadau, ac eglurder o fewn yr ap.
    - "Nid yw'n hawdd ei defnyddio. Mae llawer o ddolenni ac nid yw'n esbonio ei hun yn dda bob amser." (Ceidwad Gwartheg a Defaid)
    - "Mae'r derminoleg yn anodd ei deall. Nid yw'r rhwymedigaethau bob amser yn glir." (Ceidwad Defaid)
    - "Nid wyf yn deall beth rwy'n ei wneud ac rwy'n datrys pethau wrth i mi fynd." (Ceidwad Ceffylau a cheidwad Geifr)
    - "Mae'n lletchwith weithiau a gellid ei hesbonio'n well, gyda fideo arddangos, efallai." (Ceidwad Gwartheg a Defaid)
- Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at ddiffyg llythrennedd digidol, tra soniodd eraill am gysylltiad band eang gwael fel eu prif her.
    - "Rwy'n ei chael hi'n anodd defnyddio cyfrifiadur ar gyfer y ffurflenni hyn ac mae'n well o lawer gennyf ddefnyddio fersiynau papur." (Ceidwad Defaid)
    - "Problemau technegol TG, diffyg defnydd i ddod yn arbenigwr ar fapio, a chysylltiad gwael â'r rhyngrwyd ar safle'r busnes." (Ceidwad Defaid)
    - "Anaml iawn y bydd gennyf ryngrwyd ddibynadwy. Mae'n rhaid i mi droi at ffurflenni papur bob tro. Lleoliad gwledig." (Ceidwad Defaid)
- Cyfeiriodd defnyddwyr eraill at ymarferoldeb cyfyngedig y system 'Rheoli Fy CPH', ochr yn ochr â materion polisi penodol, fel y ffaith bod y fersiwn o 'Reoli Fy CPH' ar ôl trosi yn cynnwys gofynion llymach ynglŷn â thir comin o gymharu â'r fersiwn hŷn.
    - "Nid yw llawer o ffermwyr yn diweddaru'r CPH pan fyddant yn derbyn tir ychwanegol neu'n ildio tir. Nid yw'r system yn diweddaru'n awtomatig wrth ddefnyddio Rheoli fy Nhir." (Ceidwad Defaid a Gwartheg)
    - "Mae CPHau dros dro yn amhosibl i ni, bron. Rydyn ni'n gwneud cais amdanynt ar gyfer pori defaid yn y gaeaf yn unig ac mae'n rhaid i ni dicio'r blwch i ddweud bod un parti o dan gyfyngiadau TB, er ein bod ni'n symud

defaid yn unig. [..] Nid yw'r ffurflen yn gofyn pa gategori anifail y byddwch yn ei roi ar y CPH hwnnw." (Ceidwad Defaid a Gwartheg)

- "Methu ychwanegu tir rhent oherwydd nid yw hawliad taliad y tenant blaenorol wedi dod i ben. Roedd y tenant blaenorol wedi gadael cyn i ddiwedd y cyfnod taliad ddod i ben, felly nid oedd Rheoli fy CPH yn caniatáu i mi gysylltu'r CPH â'm taliad i. Ers hynny, nid wyf yn trafferthu ceisio ychwanegu tir rhent." (Ceidwad Defaid)
- "Ers i mi drosi fy CPH, mae gennyf dir comin nad yw'n gyffiniol â'r PPL, felly ni ellir ei gyfuno â'm prif CPH. Mae'n rhaid i'r tir comin gael CPH ar wahân, ac mae angen prawf Cyn Symud cyn i unrhyw dda byw gael eu symud rhwng y prif CPH a'r CPH tir comin. Mae gennyf hawliau tir comin ar bedwar gwahanol ddarn o dir comin, sydd oll o fewn y radiws deng milltir, felly mae hyn yn golygu rheoli pum CPH. Mae'n rhaid i mi, fel ceidwad, sicrhau bod symudiadau da byw i'r CPH tir comin yn cael eu hadrodd, rwy'n darllen yr holl dagiau, ac mae rheolau gwahardd symud yn berthnasol hefyd. A allwch chi ddiwygio hyn, os gwelwch yn dda, oherwydd mae'n wirion. Dyma'r rheswm pam nad yw'r rhan fwyaf o ffermwyr ym Mhowys wedi trosi." (Ceidwad Defaid)

- Dywedodd lleiafrif bach nad ydynt yn wynebu unrhyw heriau a'u bod yn credu bod y system yn syml ei defnyddio.
  - "Dim o gwbl! Pam ar y ddaear mae rhyw berson ifanc clyfar wedi penderfynu ei gwella. Mae'n gweithio, edrychwch!" (Ceidwad Gwenyn)
  - "Mae'n system dda i'w defnyddio, ond mae'n wirion na all TLA fod ar gyfer 365 o ddiwrnodau'r flwyddyn ac nad yw tCPH yn gallu ailadrodd yn flynyddol." (Ceidwad Defaid a Gwartheg)
  - "Mae'n glir iawn. Nid wyf wedi cael unrhyw broblemau technegol." (Ceidwad Gwartheg)
  - "Nid yw'n gymaint o broblem ei defnyddio… y brif broblem yw'r canlyniadau os byddwch yn gwneud camgymeriad wrth ei defnyddio." (Ceidwad Gwartheg a Defaid)

6.11 Yn dilyn hyn, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn teimlo bod digon o arweiniad i gefnogi ceidwaid da byw wrth ddefnyddio rhifau CPH a 'Rheoli Fy CPH' a sut gellid gwella'r arweiniad. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr a fynegodd farn nad oes digon o arweiniad, ond roedd lleiafrif yn fodlon ar yr arweiniad.

- "Na. Byddai arweiniad mwy eglur (canllaw syml) yn ddefnyddiol." (Ceidwad Defaid)
- "Na. Mae angen sicrhau bod copïau canllaw papur ar gael o hyd y gallai ffermwyr eu codi mewn marchnadoedd, siopau cyflenwi amaethyddol, ac ati." (Asiant)
- "Na – mae angen ei symleiddio a chael cyfarwyddiadau syml." (Ceidwad Defaid)
- "Nid yw'n glir iawn pan fyddwch chi'n ei ddefnyddio. Mae'n sôn am brif leoliadau a chyfeiriadau, nad yw'n glir." (Ceidwad Gwartheg a Defaid)
- "Ie, gyda'r llinellau cymorth sydd ar gael a chymorth yr NFU i'w aelodau." (Ceidwad Defaid)
- "Ie, arweiniad da." (Ceidwad Gwartheg a Defaid)

Rhoddodd rhai o'r ymatebwyr argymhellion ychwanegol i gryfhau'r arweiniad yn y dyfodol, gan gynnwys:

- "Peidio â rhoi arweiniad ar wefan ddiwerth nad oes neb yn gallu cael ati." (Ceidwad Gwartheg)
- "Mae'r arweiniad yn rhy gymhleth i'r ffermwr cyffredin ei ddeall. Dylid darparu hyfforddiant ymarferol am ddim!" (Ceidwad Defaid)
- "Byddai'n ddefnyddiol cael tiwtorial cyflwyniadol byr ar sut i ddefnyddio'r system, beth yw diben pob maes, a beth sy'n hanfodol." (Ceidwad Defaid)

6.12 Gofynnodd cwestiynau 10 ac 11 i'r ymatebwyr i'r arolwg a oeddent wedi creu neu ddefnyddio 'CPH dros dro' neu 'Gysylltiad Tir Dros Dro'. O'r 137 o ymatebion dilys, dim ond 22 a ddywedodd eu bod wedi creu tCPH o'r blaen. O'r rhain, dywedodd llond dyrnaid fod creu tCPH yn broses syml, ond dywedodd y rhan fwyaf ei bod yn gymhleth. Roedd rhai eisiau i tCPH allu ailadrodd yn flynyddol.

- “Roedd y profiad yn dda.” (Ceidwad Defaid ac Asiant)
- “Nid oedd yn rhwydd y tro cyntaf! Ond mae’n dod yn rhwyddach po amlaf mae’n rhaid i mi ei gwneud. Mae ymhell o fod yn hawdd ei deall.” (Ceidwad Defaid)
- “Bu’n rhaid i mi gael cymorth gan yr Undeb [ffermio]” (Ceidwad Defaid a Gwartheg)
- “Roedd hyn yn anodd iawn. Sefydlais CPH dros dro, nad oedd ei angen arnaf, yna ni allwn ei ddileu. Roedd hyn ychydig flynyddoedd yn ôl.” (Ceidwad Defaid a Gwartheg)
- “Mae’r broses ymgeisio ar gyfer rhif daliad dros dro yn dda, ond nid wyf yn hoffi’r ffaith bod rhaid i’r rhif daliad newid bob blwyddyn a gorfod rhoi gwybod i’r BCMS/FAWL/Anifail, ac ati. Pam mae angen iddo newid?” (Ceidwad Defaid)
- “Ydy, mae’n rhwydd, ond oni allai ailadrodd bob blwyddyn[?]” (Ceidwad Defaid a Gwartheg)

Yn y cyfamser, dywedodd 24 o’r 137 o ymatebwyr dilys eu bod wedi defnyddio Cysylltiad Tir Dros Dro (TLA) yn y gorffennol. Roedd yr ymatebwyr hyn wedi’u rhannu’n gymharol gyfartal rhwng y rhai a ddywedodd fod eu cais yn syml a’r rhai a adroddodd am anawsterau sylweddol wrth greu eu TLA.

- “Roedd hyn yn rhwydd, diolch byth.” (Ceidwad Defaid)
- “Roedd yn gweithio’n dda wedi i mi gael y map yn iawn. Gellid gwneud y swyddogaeth help yn haws ei llywio.” (Ceidwad Defaid a Gwartheg)
- “Unwaith eto, nid yw’n opsiwn hawdd ei ddefnyddio pan na allwch roi “Enw” i floc o dir ar wahân a’r holl leiniau sy’n gysylltiedig ag ef. Fe ddylai hefyd fod yn haws ei ailadrodd ar gyfer pori tymhorol yn yr haf.” (Ceidwad Defaid a Gwartheg)
- “Roedd yn hunllef pan sefydlais i a’m cymydog ei TLA. Bu’n rhaid ffonio RPW ac fe arweiniodd yr unigolyn ni drwy’r broses. Roedd yn ymddangos mor gymhleth.” (Ceidwad Defaid)

- “Anodd.” (Ceidwad Defaid a Gwartheg)

6.13 Gofynnwyd i’r ymatebwyr a oeddent yn credu bod y gwasanaethau cymorth sydd ar gael yn ddigonol, yn nodedig Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm Llywodraeth Cymru a Chanolfan Cymorth Cwsmeriaid RPW. Dywedodd tua dwy ran o dair o’r ymatebwyr a fynegodd safbwyntiau clir fod y gwasanaethau hyn yn rhagorol neu’n ddigonol, a dywedodd un rhan o dair eu bod yn anfoddhaol. Roedd beirniadaethau’n cynnwys amser ymateb araf, trafferth cysylltu â phersonél gwybodus, a chymorth annigonol i’r rhai hynny â sgiliau digidol cyfyngedig. Nid oedd nifer fach o’r ymatebwyr yn sylweddoli bod y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm yn dal i fodoli, sy’n dangos bwlch cyfathrebu posibl a diffyg cyfeiriadau at ei wasanaethau. Galwyd am fwy o wasanaethau wyneb yn wyneb.

- “Pan fyddaf yn cael trafferth gyda Rheoli Fy CPH, fy mhwynt cyswllt yw’r Tîm Cysylltwyr Fferm. Mae’r gwasanaeth hwn yn wych ac rwy’n ei argymell. Dylid ei hyrwyddo’n fwy.” (Ceidwad Defaid)
- “Mae’r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm yn wych – cynorthwyol iawn.” (Ceidwad Defaid)
- “Mae RPW yn gynorthwyol iawn, ond dim digon o wybodaeth am hysbysu APHA.” (Ceidwad Dofednod)
- “Mae angen sicrhau bod mwy o staff cymwysedig ar gael, oherwydd gallant fod yn araf iawn i ymateb a datrys problemau.” (Ceidwad Gwartheg)
- “Mae llinell gyngor RPW wedi gwella llawer yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Nid oeddwn yn sylweddoli bod y Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm yn dal i fodoli, a allai ateb y cwestiwn hwn yn rhannol.” (Ceidwad Defaid)
- “Mae’n anodd dibynnu ar y ffaith bod gan bob ffermwr fynediad at wasanaethau ar-lein a gwybodaeth amdanynt, a’r gallu i’w defnyddio’n gywir ac yn hyderus. Mae angen darparu cymorth ychwanegol i ffermwyr nad oes ganddynt sgiliau technegol yn y maes hwn.” (Ceidwad Defaid)
- “Mae cymorth RPW wedi bod yn ddefnyddiol ar y ffôn, ond mae angen i mi gael esboniad manwl ar lefel bersonol, oherwydd rwy’n ei chael hi’n

anodd dilyn cyfarwyddiadau ‘o bellter’ heb i rywun ddangos i mi beth sy’n ofynnol.” (Ceidwad Defaid)

6.14 Gofynnwyd i’r ymatebwyr ddisgrifio newidiadau neu welliannau pellach a fyddai’n gwneud prosesau CPH yn haws iddynt eu defnyddio. Datgelodd yr arolwg gymysgedd o fodlonrwydd a rhwystredigaeth ynglŷn â phrosesau CPH. Er bod nifer fach o’r ymatebwyr yn fodlon ar y system bresennol ac nid oeddent am weld newidiadau mawr, amlygodd y mwyafrif feysydd i’w gwella. Yr alwad fwyaf cyffredin oedd symleiddio prosesau CPH yn gyffredinol. Yr awgrym ail fwyaf cyffredin oedd moderneiddio’r system ‘Rheoli Fy CPH’, gan gynnwys trwy ei gwella’n weledol a chyflymu’r amser llwytho. Y gwelliant mwyaf cyffredin nesaf oedd arweiniad mwy clir a haws ei ddefnyddio. Galwodd eraill am integreiddio ‘Rheoli Fy CPH’ yn gryfach â systemau eraill, fel EIDCymru a ‘Rheoli fy Nhir’. Galwodd eraill am symleiddio’r iaith. Yn olaf, galwodd rhai am leihau’r baich gweinyddol ar ffermwyr yn gyffredinol ac am ffurflenni papur.

- “Symleiddiwch hi!” (Ceidwad Defaid)
- "Moderneiddio’r wefan a chyfarwyddiadau gwell." (Ceidwad Defaid)
- “Nid yw’n hawdd dod o hyd i ‘Reoli Fy CPH’ ar RPW. Mae angen iddo gael ei flwch ei hun ar RPW oherwydd ei fod o dan yr eicon gwymplen pan fyddwch chi’n clicio ar dir ar hyn o bryd." (Ceidwad Defaid)
- “Rwy’n drysu wrth ychwanegu tir oherwydd ei fod yn ymddangos mewn blociau. Mae’n edrych fel bod pob bloc yn rhif daliad gwahanol." (Ceidwad Defaid)
- “Canllaw syml i ‘Reoli Fy CPH’ – neu os yw’n bodoli, ei gwneud yn haws dod o hyd iddo!" (Ceidwad Defaid)
- "Beth am integreiddio’r systemau? Hynny yw, mae’n egwyddor eithaf sylfaenol, on’d yw hi? Mewngofnodi unwaith, yr holl wasanaethau, un rhyngwyneb cyson.” (Ceidwad Moch, Defaid, Geifr, a Dofednod)
- "Oni fyddai’n haws ac yn symlach cael system sy’n defnyddio’r caeau a amlygwyd ar gyfer cymorthdaliadau, grantiau, a thaliadau fferm a’i chysylltu ag adnabod anifeiliaid." (Ceidwad Defaid a Geifr)

- “Rwy’n hen ffasiwn ac rwy’n hoffi copïau papur o ddogfennau." (Ceidwad Defaid a Geifr)
- "Nid iaith ffermwyr yw’r iaith a ddefnyddir ar y system." (Ceidwad Defaid)
- "Mae gormod ar y dudalen! Ni allaf ddod o hyd i’r hyn y dylwn i fod yn chwilio amdano, ac rydych chi’n defnyddio gormod o acronymau.” (Ceidwad Defaid)

**Atodiad B: Canfyddiadau o grwpiau ffocws gyda defnyddwyr ‘Rheoli Fy CPH**

6.15 Cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws ym mis Chwefror 2024. Roedd y rhain yn cynnwys dau grŵp ffocws yn Aberystwyth, un yn Llanelwedd (ger Llanfair-ym-Muallt), a dau grŵp ffocws rhithwir. Gwahoddwyd cyfranogwyr trwy ffurflen Mynegi Diddordeb a oedd ar gael wrth a chyn cwblhau’r arolwg, a thrwy bostiadau ar sianeli cyfryngau cymdeithasol a rhwydweithiau academaidd a phersonol. Yn unol â’r galw, cynhaliwyd tri grŵp ffocws yn Saesneg a dau yn Gymraeg. Cymerodd cyfanswm o 15 o bobl ran yn y grwpiau ffocws. Er na ofynnwyd iddynt yn benodol, awgrymodd mwyafrif y ceidwaid a fynychodd y grwpiau ffocws eu bod yn ffermwyr bach a chanolig, awgrymodd lleiafrif eu bod yn dyddynwyr, a dywedodd dau eu bod yn rheoli niferoedd mawr o leiniau tir ar ran sefydliadau. Roedd cyfrannau’r ceidwaid sy’n dal gwartheg a defaid yn gymesur, yn fras, â’r rhai a amlygwyd yn yr arolwg.

6.16 **Polisi:** Cynigiodd y rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws gyfres o newidiadau polisi. Roedd y rhain yn amrywio o gynigion sydd o fewn cwmpas yr adolygiad hwn, sef rhai sy’n ymwneud â pholisi CPH, i gynigion a oedd yn canolbwyntio ar bolisi Symudiadau Anifeiliaid, ac eraill a oedd yn canolbwyntio ar bolisi amaethyddol yn ehangach. Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- Croesawu gorfodaeth i drosi i fersiwn ddiweddaraf ‘Rheoli Fy CPH’, os oes cymorth digonol a chynhwysfawr ar gael i ddefnyddwyr, fel trwy’r Ganolfan Cyswllt Cwsmeriaid a’r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm. Dadleuwyd y dylai’r cymorth bwysleisio buddion trosi i ffermwyr, fel y rheol deng milltir. Galwodd y cyfranogwyr hefyd am “opsiwn un clic ar gyfer CPHau syml iawn”, a fyddai’n golygu bod RPW Ar-lein yn gofyn am ganiatâd y defnyddiwr i drosi

CPH syml (e.e., CPH heb dir comin, dim TLA cysylltiedig, a nifer gyfyngedig o flociau). Roedd y cymorth a'r ymgysylltiad a gynigiwyd yn cynnwys:

  - Digwyddiadau a stondinau mewn arwerthiannau ac mewn mannau eraill lle mae ffermwyr yn dod at ei gilydd.
  - Negeseuon e-bost a galwadau ffôn penodol.
  - RPW Ar-lein i gynnig swyddogaethau galwad fideo yn ogystal â chymorth ar y ffôn.
  - Sesiynau hyfforddi naid ar sut i ddefnyddio 'Rheoli Fy CPH' a chynhyrchion eraill RPW yn ystafelloedd cyfrifiaduron prifysgolion, ysgolion, llyfrgelloedd, ac yn y blaen.

- Roedd y rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn croesawu'r syniad o 'Siop Un Stop' ar gyfer creu CPH newydd a chael rhif diadell neu fuches, yn hytrach na'r broses bresennol o greu CPH trwy wasanaeth 'Reoli Fy CPH' RPW a chysylltu ag APHA i gael rhif diadell a buches yn dilyn hynny.
- Dadleuodd un cyfranogwr yn y grŵp ffocws yn Llanelwedd (Powys) fod y gofyniad i dir comin fod yn gyffiniol â'r PPL mewn CPHau wedi'u trosi yn rhwystr mawr sy'n atal ffermwyr ledled Powys rhag trosi. Ar ôl clywed am yr her hon, galwodd mynychwyr eraill y grŵp ffocws yn unfrydol i'r polisi hwn gael ei ddiwygio cyn i drosi ddod yn ofynnol. Adleisiwyd hyn yn y grwpiau ffocws ar-lein a'r rhai wyneb yn wyneb yn Aberystwyth pan esboniwyd y sefyllfa bresennol i'r cyfranogwyr.
- Dadleuodd defnyddiwr sy'n creu Cysylltiadau Tir Dros Dro (TLAau) newydd bob blwyddyn ar gyfer yr un lleiniau o dir fod gweithdrefn 'asesu risg' yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion ar gyfer ailsefydlu TLA o fewn ardal TB uchel yn ddiangen os oedd y TLA hwnnw eisoes yn bodoli. Dywedodd y defnyddiwr ei bod yn well ganddo beidio â defnyddio TLAau ailadroddol gan ei fod yn dymuno cadw mwy o reolaeth.
- Dim ond nifer fach o gyfranogwyr oedd yn defnyddio CPHau dros dro neu Unedau Cwarantin. Fodd bynnag, roedd pob un a oedd yn defnyddio'r nodweddion hyn eisiau i'r un rhif CPH gael ei roi i tCHPau ac Unedau

Cwarantin a adnewyddir, yn hytrach na rhifau newydd bob tro yr adnewyddir tCPH (bob 12 mis) neu bob tro yr ailsefydlir Uned Gwarantin (bob 18 mis). Ar hyn o bryd, rhoddir rhif newydd wrth adnewyddu, ac mae'n rhaid i'r ceidwad roi gwybod i liaws o asiantaethau, fel BCMS, EIDCymru, a QWLC, bob tro. Dywedodd ceidwaid hefyd eu bod yn fwy tebygol o wneud camgymeriadau wrth symud, gwerthu, neu brynu da byw pan fo'r rhif tCPH neu Uned Gwarantin yn newid yn barhaus.

- Er bod hyn y tu allan i gwmpas yr adolygiad, galwodd rhai ffermwyr am ddileu'r cyfnod gwahardd symud o chwe diwrnod a chynyddu'r terfyn deng milltir i 15 neu 20 milltir er mwyn lleihau'r beichiau ar ffermwyr a chynyddu'r cymhellion i ffermwyr gofnodi symudiadau da byw yn gywir. Dadleuwyd nad oedd canlyniadau'r cyfnod gwahardd symud o chwe diwrnod yn cael eu cofnodi'n gywir mewn perthynas â llawer o symudiadau, a allai achosi dryswch pan fydd achosion o glefyd yn digwydd mewn anifeiliaid.
- Gofynnwyd i rai o gyfranogwyr y grwpiau ffocws a ddylai rhifau CPH gael eu diwygio'n fwy sylfaenol, efallai i'w gwneud yn fyrrach, a ph'un a ddylai 'Rheoli Fy CPH' ddileu swyddogaethau mapio. Gwrthododd y cyfranogwyr y ddau opsiwn hyn oherwydd gallent achosi dryswch a thynnu'n groes i'r nod o symleiddio systemau mewn ffyrdd greddfol.

6.17 **Defnyddio 'Rheoli Fy CPH':** Un o'r canfyddiadau allweddol ar draws yr holl grwpiau ffocws oedd bod mwyafrif mawr o'r cyfranogwyr yn defnyddio 'Rheoli Fy CPH' yn anaml. Roedd hyn yn rhannol oherwydd bod llawer o'r cyfranogwyr yn dal un rhif CPH yn unig, ond hefyd oherwydd cymhlethdod system a rheolau 'Rheoli Fy CPH'. Dywedodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws a oedd yn gyfrifol am reoli tir sefydliadau eu bod yn defnyddio 'Rheoli Fy CPH' yn amlach.

6.18 **Arweiniad:** Roedd mwyafrif helaeth cyfranogwyr y grwpiau ffocws yn credu y gallai arweiniad fod yn fwy eglur a chryno. Nid oedd yr un o'r cyfranogwyr yn gyfarwydd â'r pecyn e-ddysgu a gynhyrchwyd gan RPW Ar-lein. Roedd canfyddiadau mwy penodol yn cynnwys:

- Er bod un cyfranogwr o'r farn bod eiconau a nodweddion 'Rheoli Fy CPH' yn 'wych', dywedodd fod angen i chi wybod beth mae pob nodwedd yn ei wneud

cyn i chi allu ei defnyddio, ac nad oes arweiniad a gwybodaeth reddfol am sut i ddefnyddio pob nodwedd. Ystyriwyd y byddai esboniadau byr sy'n ymddangos wrth i chi hofran dros eiconau yn un ffordd o wella hyn.

- Roedd llawer o'r farn bod iaith 'Rheoli Fy CPH' yn rhy dechnegol, a bod termau fel 'Prif Leoliad Cynhyrchu' yn anreddfol. Teimlwyd hyn yn gryfach yn y ddau weithdy cyfrwng Cymraeg, oherwydd dywedodd llawer o'r cyfranogwyr eu bod yn defnyddio fersiwn Saesneg 'Rheoli Fy CPH' o ganlyniad i'r diffyg "Cymraeg pob dydd" yn y fersiwn Gymraeg. Yn ôl un cyfranogwr: "Pan rydym yn mynd trwy'r system ry'n ni'n ei defnyddio yn y Gymraeg. Ond mae'n drafferth i ddeall y dogfennau a'r systemau oherwydd cyfieithu cymhleth. Dydy e ddim yn defnyddio geirfa pob dydd."
- Beirniadwyd y ffordd y cyflwynir arweiniad mewn llawer o'r grwpiau ffocws, a galwyd iddo gael ei gynnwys yn y system 'Rheoli Fy CPH' yn hytrach nag mewn dogfennau arweiniad hirfaith. Yng ngeiriau un tyddynnwr, "Os oes angen 30-50 o dudalennau i esbonio sut i ddefnyddio'r system [Rheoli Fy CPH], nid yw'n system dda."
- Mewn rhai grwpiau ffocws, gofynnwyd i'r Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm a Chanolfan Cyswllt Cwsmeriaid RPW gynnal mwy o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb. Dywedodd eraill y gallai'r gwasanaethau gael eu hariannu'n well i sicrhau bod galwadau'n cael eu hateb ar unwaith, gan ganiatáu i ffermwyr ddychwelyd i reoli'r fferm. Mynegodd nifer fach o gyfranogwyr rwystredigaeth ynglŷn â'r ffaith eu bod yn gallu cysylltu â gwasanaethau cymorth yn ystod oriau gwaith arferol yn unig, gan eu bod fel arfer yn ceisio gweithio ar 'Reoli Fy CPH' gyda'r nos ar ôl gweithio ar y fferm yn ystod y dydd. Roedd rhai cyfranogwyr yn credu y byddai'n syniad da petai Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid RPW yn cynnig gwasanaeth fideogynadledda, a fyddai'n caniatáu i ddefnyddwyr rannu eu sgrin wrth esbonio heriau gyda 'Rheoli Fy CPH.'

6.19 **Llywio:** Amlygodd cyfranogwyr y grwpiau ffocws heriau sylweddol wrth lywio 'Rheoli Fy CPH'. Dywedodd llawer nad ydynt yn gwybod ble i ddechrau wrth agor y platfform. Dadleuodd eraill eu bod yn cael trafferth adnabod eu 'blociau' o dir ar y

map. Roedd datrysiadau posibl a amlygwyd gan gyfranogwyr y grwpiau ffocws yn cynnwys:

- Cyflwyno'r opsiwn i 'enwi' blociau o dir o fewn 'Rheoli Fy CPH', fel y gellir ei wneud ar hyn o bryd o fewn 'Rheoli fy Nhir'. Os oes modd, roedd cyfranogwyr y grwpiau ffocws eisiau i'r enwau ar flociau o dir a ddefnyddir o fewn 'Rheoli fy Nhir' gael eu defnyddio'n awtomatig o fewn 'Rheoli Fy CPH.'
- Cyflwyno tudalen lanio, sy'n gofyn i'r defnyddiwr beth mae eisiau ei wneud o fewn 'Rheoli Fy CPH' ac sy'n ei roi ar ben ffordd. Bydd hyn yn datrys yr her bresennol sy'n wynebu defnyddwyr nad ydynt yn gwybod "ble i ddechrau" wrth agor y platfform.
- Roedd eraill eisiau i fwy o wybodaeth gael ei rhoi i ddefnyddwyr 'Rheoli Fy CPH', yn enwedig gwybodaeth sy'n hysbysu defnyddwyr a yw eu CPH wedi cael ei drosi ai peidio.
- Er nad oedd yn rhan o'r adolygiad hwn, mewn gwirionedd, galwyd i dudalen hafan RPW Ar-lein gael ei diwygio fel bod 'Rheoli Fy CPH' yn fwy gweladwy, yn hytrach na bod modd llywio iddi trwy gwymplen o'r enw 'tir' yn unig.[3]

6.20 **Profiadau eraill defnyddwyr:** Amlygodd rhai o gyfranogwyr y grwpiau ffocws gyfres o heriau mwy amrywiol.

- Dywedodd llawer o gyfranogwyr y grwpiau ffocws fod band eang arafach yn her allweddol, a disgrifiodd rhai amserau llwytho araf iawn o fewn platfform 'Rheoli Fy CPH'.
- Dywedodd eraill fod cyfathrebiadau dryslyd gan RPW yn rhwystr. Er enghraifft, nododd un cyfranogwr fod y llythyr cadarnhau ar gyfer Cysylltiad Tir Dros Dro yn dangos "ticiau" yn unig ar y blociau cyntaf ac nid y lleill, sy'n awgrymu'n anghywir bod un bloc yn unig wedi cael ei gynnwys yn llwyddiannus yn y TLA.
- Mynegodd llawer o gyfranogwyr y grwpiau ffocws bryder ynglŷn â chanlyniadau gwneud camgymeriad diffuant wrth ddefnyddio 'Rheoli Fy

[3] Rydym ar ddeall bod RPW Ar-lein yn cynnal prosiect parhaus i ddiwygio tudalen flaen y wefan, sy'n cynnwys y newid hwn.

CPH'. Dyma un o'r prif resymau pam yr oedd llawer yn defnyddio gwasanaethau asiantiaid preifat neu undebau ffermio i reoli eu hymgysylltiad â gwasanaethau fel 'Rheoli Fy CPH', 'Rheoli Fy Nhir', a cheisiadau ar gyfer taliad sylfaenol.

- Esboniodd un cyfranogwr grŵp ffocws fod defnyddwyr yn tueddu i gael eu drysu gan yr opsiwn i gynnwys dyddiad cau ar CPHau parhaol. Dywedodd y dylai fod yn fwy eglur bod y dyddiad cau yn ddewisol ar CPHau parhaol, neu y dylid ei ddileu'n gyfan gwbl.

**Atodiad C: Canfyddiadau o'r gweithdai adborth ar argymhellion gyda defnyddwyr 'Rheoli Fy CPH'**

6.21 Cynhaliwyd gweithdy adborth ar argymhellion ar gyfer defnyddwyr 'Rheoli Fy CPH' (un gweithdy yn Saesneg a gweithdy ar wahân yn Gymraeg) yng nghanol mis Mawrth 2025 lle rhoddwyd cyflwyniad a amlinellodd argymhellion polisi a rhyngwyneb defnyddiwr/profiad y defnyddiwr. Croesawyd y cynigion yn wresog gan y cyfranogwyr, ac yn enwedig:

- tCPHau ailadroddol, y dywedwyd eu bod yn "dda iawn".
- Cynigion ar gyfer ymgorffori arweiniad manylach o fewn 'Rheoli Fy CPH', yn enwedig cyflwyno arweiniad sy'n ymddangos wrth hofran dros destun.
- Y 'dudalen lanio', y dywedwyd ei bod yn "berffaith glir".

6.22 Dywedwyd bod y rhwystrau canlynol heb eu datrys ac aethpwyd i'r afael â nhw'n uniongyrchol mewn argymhellion a wnaed yn dilyn y gweithdy:

- Dywedwyd efallai nad yw ceidwaid yn gwybod a ddylent ddefnyddio tCPH, TLA, neu CPH. Felly, roedd argymhellion dilynol yn cynnwys y dudalen 'Rhestr Termau' a defnyddio arweiniad sy'n ymddangos wrth hofran dros destun yn fwy mynych.
- Dywedwyd bod ceidwaid yn aml yn clicio ar y map 'Rheoli Fy CPH' pan ofynnir iddynt ddiffinio'r math o Brif Leoliad Cynhyrchu (PPL). Roedd y cynigion dilynol yn cynnwys gwall naid, pe byddai defnyddiwr yn clicio ar y map, yn hytrach na chadarnhau neu wadu bod eu CPH yn cynnwys prif gyfleuster trin neu PPL o fath arall.

6.23 Nodwyd bod y rhwystrau canlynol heb eu datrys, ond ni aethpwyd i'r afael â nhw'n uniongyrchol mewn argymhellion a wnaed yn dilyn y gweithdy:

- Roedd rhai o gyfranogwyr y gweithdai eisiau i'r system 'blociau' gael ei diddymu, ac i 'Reoli Fy CPH' ddibynnu'n llwyr ar leiniau o dir. Roedd cyfranogwyr eraill eisiau i'r system 'blociau' barhau.
- Roedd un cyfranogwr mewn gweithdy eisiau i 'Reoli Fy CPH' beidio â chynnwys dyddiadau gorffen yn awtomatig ar gyfer lleiniau newydd o dir sy'n gysylltiedig â thenantiaethau a fewnbynnir ar y Ffurflen Cais Sengl neu 'Reoli Fy Nhir'. Gellid ystyried neu egluro hyn ymhellach o fewn y system 'Rheoli Fy CPH', ond ystyriwyd ei bod yn addas i'r adolygiad hwn argymell dileu dyddiadau gorffen a fewnbynnir yn awtomatig ar gais un cyfranogwr.

**Atodiad Ch: Canfyddiadau o gyfweliadau â phartneriaid cyflawni**

6.24 Cynhaliwyd deg cyfweliad â phartneriaid cyflawni allweddol ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2024. Cynhaliwyd cyfweliadau â chynrychiolwyr Taliadau Gwledig Cymru (RPW), Llywodraeth Cymru, Swyddfa'r Prif Filfeddyg (OCVO), yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), Arolygiaeth Wledig Cymru (RIW), yr Asiantaeth Taliadau Gwledig, ac EIDCymru a Quality Welsh Food Certification Ltd. Anogwyd y cyfweleion i siarad yn ddienw, felly cyflwynir y canfyddiadau yn ôl themâu allweddol ac yn ddienw, lle bo'n bosibl. Lle nad oedd modd aros yn ddienw, cafwyd cydsyniad o flaen llaw. Rhannwyd llawer o'r wybodaeth a ddarparwyd mewn cyfweliadau i sicrhau bod gan yr adolygiad annibynnol ddealltwriaeth drwyadl o'r prosesau presennol a rolau sefydliadau penodol wrth reoli a defnyddio rhifau CPH yng Nghymru. Ni ellir gwneud gwybodaeth benodol am rolau sefydliadau yn ddienw'n effeithiol, felly nid yw wedi'i hamlinellu isod, hyd yn oed os oedd wedi llywio'r adolygiad.

6.25 Gofynnwyd cwestiwn allweddol i'r cyfweleion ynglŷn â faint o ddata 'Rheoli Fy CPH' a rennir a mynediad at y data hwnnw. Esboniwyd mai Taliadau Gwledig Cymru yw'r prif ddeiliad data ar gyfer data CPH, ac ychydig iawn o sefydliadau sydd â mynediad uniongyrchol at y data hwn, gan gynnwys APHA a RIW. Mae porthiant dros nos rhwng RPW ac APHA, sy'n llywio'r System Trwyddedu Symudiadau Anifeiliaid (AMLS) ledled y Deyrnas Unedig. Esboniwyd bod angen i APHA wneud

llawer o waith gwirio cyfeiriadau â llaw o hyd. Mae'r AMLS yn ffynhonnell allweddol o ddata cysylltiedig â CPH ar gyfer sefydliadau yng Nghymru, gan gynnwys OCVO, sy'n derbyn adroddiadau gan APHA ynglŷn â risgiau clefydau a CPHau o fewn parthau gwyliadwriaeth neu amddiffyn. Mae EIDCymru yn dibynnu ar yr AMLS hefyd oherwydd dyma'r set ddata a ddefnyddir gan APHA a RIW ac mae'n cynnwys CPHau yn Lloegr a'r Alban, sy'n allweddol ar gyfer symudiadau trawsffiniol. Fodd bynnag, nid yw'r AMLS yn cynnwys rhai categorïau data a gesglir gan RPW Ar-lein (fel dyddiadau dechrau a gorffen TLA a tCPH), sy'n ofynnol gan EIDCymru. Ceir y rhain gan ddefnyddio porthiant data gan RPW Ar-lein, sy'n diweddaru bob deng munud. Trwy ddilysu'r ddwy set ddata hyn â llaw, gall EIDCymru adnabod gwallau neu wahaniaethau yn y setiau data.

6.26 Un o'r heriau allweddol a amlygwyd gan gyfweleion sy'n gweithio'n agos gyda data 'Rheoli Fy CPH' oedd canlyniadau trosi CPH yn anghyflawn, gan nad oedd 30-40% o CPHau wedi trosi i'r rheolau newydd ar ôl 2016. Er enghraifft, dywedwyd bod y porthiant data rheolaidd iawn rhwng RPW ac EIDCymru yn gallu ymdopi â newidiadau a wnaed i CPHau sydd wedi trosi yn unig. Felly, roedd galwadau rheolaidd i wneud trosi i system ddiweddaraf CPHau yn orfodol er mwyn defnyddio adnoddau staff yn fwy effeithlon.

6.27 Mynegodd rhai cyfweleion bryderon ynglŷn â defnyddio nifer o rifau CPH o fewn un fferm. Rhoddwyd enghreifftiau o CPHau newydd yn cael eu cymeradwyo ar gyfer un llain o dir wedi'i hamgylchynu gan CPH arall, heb ffens cadw stoc sy'n gwahanu'r ddau CPH. Cyfeiriwyd at y rhain weithiau fel 'Unedau Cwarantin anffurfiol' gan eu bod yn caniatáu i geidwaid osgoi'r rheol Cyfnod Gwahardd Symud Chwe Diwrnod sy'n effeithio ar eu da byw ehangach, ond heb y mesurau bioddiogelwch a'r arolygiadau rheolaidd o Unedau Cwarantin sy'n cael eu hardystio gan QWFC. Derbyniwyd y byddai datrysiad technegol yn heriol. Mynegwyd pryderon hefyd bod hen rifau CPH, a roddwyd cyn system fapio 'Rheoli Fy CPH', yn cael eu defnyddio i osgoi'r Cyfnod Gwahardd Symud Chwe Diwrnod.

6.28 Roedd y cyfweleion yn cytuno'n gryf fod y system Cysylltiad Tir Dros Dro yn llwyddiant. Fodd bynnag, amlygwyd dwy her yn ymwneud â lleiniau tir dros dro:

- Yr un gyntaf oedd nad yw llawer o ffermwyr yn creu tCPH neu TLA pan fyddant yn defnyddio tir ceidwad arall sydd â rhif CPH presennol am gyfnod dros dro, gan ei bod yn well ganddynt gofrestru symudiad i'r CPH Parhaol presennol hwnnw yn hytrach na sefydlu eu TLA neu tCPH eu hunain. Yn ôl y polisi presennol, dylai defnyddwyr greu tCPH neu TLA newydd wrth gadw da byw ar dir unigolyn arall, oherwydd bod y ceidwad hwnnw'n gyfrifol am yr anifeiliaid hynny at ddibenion archwilio, lles anifeiliaid, a chlefydau. Awgrymodd cyfwelai y gallai'r gamdybiaeth bod cynnwys tir o fewn CPH ceidwad yn effeithio ar berchnogaeth y tir hwnnw fod yn rhwystro pobl rhag defnyddio tCPHau a TLAau fel y bwriadwyd, a gellid mynd i'r afael â hyn trwy ymgyrch addysgol gan RPW neu FLS.
- Yr ail her oedd na ellir gwneud i tCPHau ailadrodd, a bod tCPHau ac Unedau Cwarantin ar yr un lleiniau o dir yn cael rhif CPH newydd bob tro y'u hadnewyddir. Dadleuwyd bod hyn yn achosi dryswch i ffermwyr (safbwynt a adleisiwyd wrth ymgysylltu â cheidwaid), a'i bod hefyd yn anodd i Lywodraeth Cymru a rheoleiddwyr weld hanes llain o dir dros nifer o flynyddoedd.

6.29 Gofynnwyd i'r cyfweleion am eu barn ynglŷn â 'Siop Un Stop, yn benodol lle gall ceidwaid gael rhif CPH newydd a rhif buches neu ddiadell mewn un broses – yn hytrach na'r system bresennol o greu rhif CPH yn 'Rheoli Fy CPH' a gofyn am rif diadell neu fuches trwy alw APHA. Roedd y cyfweleion yn cefnogi egwyddor 'Siop Un Stop' yn gyffredinol, er y pwysleisiwyd ambell waith y byddai'n cymryd amser i greu'r system hon a byddai angen iddi gael ei hariannu'n briodol. Yn aml, dywedodd cyfweleion y byddai 'Siop Un Stop' yn fuddiol i geidwaid da byw trwy symleiddio tasgau sy'n cymryd llawer o amser. Dywedwyd hefyd y gallai hyn arwain at fuddion ychwanegol:

- Byddai'n dileu'r broblem bresennol lle mae ceidwaid yn sefydlu CPH newydd ac yn cael rhif CPH newydd, na allant ei ddefnyddio tan iddynt gael rhif diadell a buches gan APHA.
- Byddai'n golygu y byddai'n ofynnol i ddefnyddwyr nodi beth fydd CPH yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer (e.e., pa fath o dda byw fydd yn cael eu cadw ar y CPH) wrth wneud cais am rif CPH newydd. Fe allai hyn lywio penderfyniadau

yn ymwneud â chymeradwyo CPHau newydd yn berthynol i risgiau clefydau rhywogaethau penodol, e.e., atal agor tCPHau newydd ar gyfer gwartheg yn unig mewn ardaloedd â chyfyngiadau TB uwch, ond caniatáu'r tCPHau ar gyfer (rhai) rhywogaethau eraill.

Rhybuddiodd cynrychiolwyr APHA fod yr Asiantaeth yn casglu llawer o ddata wrth weinyddu rhifau diadell a buches, gan gynnwys data sy'n ofynnol i lywio asesiad risg milfeddygol. Er hynny, nid oedd y cynrychiolwyr hyn o'r farn bod yr heriau'n anorchfygol ac awgrymwyd y byddai APHA yn croesawu 'Siop Un Stop' wedi'i hymgorffori o fewn RPW Ar-lein ar yr amod y cadarnheir bod y wybodaeth yn gywir a'i bod yn cael ei rhannu gydag APHA pan fo'n ofynnol. Darparwyd rhagor o wybodaeth am y data a gesglir gan APHA ar hyn o bryd trwy e-bost ac mae wedi'i chynnwys yn **Atodiad A – Gwybodaeth i gefnogi datblygiad 'Siop Un Stop'.**

6.30 Trafodwyd a gwnaed sylwadau ar gynigion eraill, gan gynnwys:

- Symleiddio'r arweiniad a ddarperir i ddefnyddio 'Rheoli Fy CPH' ac ymgorffori tiwtorialau fideo yn yr arweiniad.
- Gwella profiad y defnyddiwr o 'Reoli Fy CPH', gan gynnwys gwneud y system yn haws ei llywio.
- Mesurau diogelu cryfach i sicrhau nad yw llythyrau a anfonir at ddefnyddwyr 'Rheoli Fy CPH' yn cael eu hanfon at ddefnyddwyr sydd wedi marw, oherwydd bod hyn yn gallu peri gofid i deuluoedd.
- Dileu'r gofyniad i dir comin fod yn gyffiniol â PPL mewn CPHau wedi'u trosi, gan fod hyn yn atal llawer o geidwaid rhag trosi.

6.31 Gofynnwyd i'r cyfweleion a ddylid ystyried diwygiadau polisi mwy sylfaenol, fel disodli CPHau â lleolydd daearyddol arall neu wneud rhifau CPH yn fyrrach. Dywedodd yr holl gyfweleion y gofynnwyd iddynt wneud sylwadau ar y pynciau hyn y byddai diwygiadau sylfaenol fel y rhain yn achosi dryswch oherwydd bod ceidwaid yn gyfarwydd â'r system gyfredol a'u rhifau CPH presennol.

**Atodiad D: Grŵp ffocws gyda rhanddeiliaid ffermio**

6.32 Cynhaliwyd grŵp ffocws gydag aelodau'r Grŵp Cynghori ar Adnabod Da Byw (LIDAG) ym mis Rhagfyr 2024. Mae hyn yn cynnwys undebau ffermio, cyrff masnach, ac eraill.

6.33 Amlygodd y cyfranogwyr fanteision canlynol y system CPH bresennol:

- Mae ffermwyr yn gyfarwydd â'r system CPH ac yn ei deall.
- Mae'r rheol deng milltir yn effeithiol ac wedi annog cofnodi mwy o symudiadau da byw yn gywir.
- Mae 'Rheoli Fy Nhir' a 'Rheoli Fy CPH' yn gwasanaethu dau ddiben gwahanol a dylid eu cadw ar wahân.

6.34 Amlygodd cyfranogwyr yr heriau canlynol yn ymwneud â'r system CPH:

- Diffyg arweiniad clir o fewn y platfform 'Rheoli Fy CPH', gan gynnwys cryn ddryswch ynglŷn â tCPHau.
- System ddiangen o feichus i wneud cais am tCPH yn flynyddol. Fe ddylai fod modd i hyn ailadrodd ac i'r un rhif CPH gael ei roi.
- Mae'r broses Uned Gwarantin yn eithaf hir: mae'r ffermwr yn gwneud cais i QWLF, yna mae APHA yn ei gymeradwyo gyda rhif diadell, wedyn mae'n rhaid i'r ffermwr ailgofrestru'r rhif. Gwneir hyn bob 18 mis.
- Gall Tir Comin fod yn ddryslyd, yn enwedig p'un a yw tir yn "gyffiniol" â CPH ai peidio. Weithiau, nid yw'r diffiniad o "gyffiniol" yn glir – weithiau, mae ffordd yn golygu cyffiniol, ond nid bob tro.
- Mae'r system 'Rheoli Fy CPH' yn gweithio gyda rhifau blociau. Ond, nid yw'r map yn dweud wrthych ba lain o dir sydd ym mha floc, nac yn enwi blociau penodol.

6.35 Pan ofynnwyd iddynt rannu eu safbwyntiau ar ddiwygiadau penodol, dywedodd rhanddeiliaid LIDAG y canlynol:

- Arweiniad: Byddai'n beth da pe gallai'r system 'Rheoli Fy CPH' "gynnig" y rhan gywir o'r arweiniad.

- Trosi Anghyflawn: Deëllir yr angen am ddyddiad cau ar gyfer trosi; fodd bynnag, mae angen amseru hyn yn ofalus oherwydd newidiadau eraill yn y diwydiant. Mae angen i drosi gorfodol gael ei wneud ar adeg pan fydd ffermwyr yn gallu delio â’r newidiadau hyn a chyda digon o gymorth gan Lywodraeth Cymru a Swyddogion Cyswllt Fferm.
- Siop Un Stop: Croesawyd ‘Siop Un Siop’ yn gryf, gan fod symleiddio profiadau i ffermwyr yn bwysig iawn.

# 7. Ychwanegiadau

**Atodiad A: Gwybodaeth i gefnogi datblygiad 'Siop Un Stop'**

7.1 Yn dilyn trafodaethau â swyddogion yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion, cytunwyd y dylid rhannu'r wybodaeth ganlynol i lywio'r adolygiad o Rifau Daliadau. Cynhwyswyd y wybodaeth hon yn yr adroddiad hwn i lywio a chefnogi datblygiad 'Siop Un Stop' ar gyfer derbyn rhifau CPH a rhifau diadell neu fuches.

**Neges e-bost oddi wrth un o swyddogion APHA:**

Pan fydd y cwsmer yn ffonio – yn gyffredinol, byddem yn dilyn y profforma atodedig [*sydd ar gael isod*] fel canllaw (nid yw'r tîm yn ysgrifennu ar y ffurflenni hyn mwyach oherwydd eu bod yn gwybod pa wybodaeth y mae angen iddynt ei chasglu, felly mae'r ffurflen hon braidd yn hen, ond mae'n rhoi syniad i chi). Nid yw hyn mewn trefn benodol:

1. Gofynnwn a ydynt yn unigolyn neu'n fusnes (perchennog a/neu geidwad) – mae'n rhaid i hyn gyfateb i'r cais RPW a wnaethant;
2. Byddwn yn gwirio bod cyfeiriad y daliad yn gywir – weithiau, os nad yw rhywbeth yn taro deuddeg byddwn yn gwirio gyda'r cwsmer (er enghraifft, os yw wedi nodi bod ganddo 50 o fuchod ac mae ei gyfeiriad yn swnio fel stryd breswyl, byddwn yn cadarnhau hyn gyda'r cwsmer). Weithiau, gwneir hyn cyn i'r cwsmer ffonio ac mae ein tîm yn gwirio'r lleoliad trwy'r dangosydd CPH, ond dim ond os nad yw'r robot[4] eisoes wedi rhoi'r cofnod yn SAM. Pe byddai cofnod fel yr un uchod yn cael ei brosesu gan y robot, byddai'n rhaid i'r cwsmer ffonio ac yna byddai ein tîm yn archwilio'r cofnod yn fanylach i ymholi ac addasu'r cyfeiriad – ni fyddai'r robot yn sylwi nad yw'r cyfeiriad yn swnio'n iawn i gadw gwartheg. Gwneir hyn trwy brofiad yn bennaf a'r ffaith bod ein tîm yn gallu holi ynghylch pethau nad ydynt yn taro deuddeg;
3. Gofynnwn iddynt ddewis cyfrinair ar gyfer eu cyfrif – bydd angen iddynt ei roi bob tro y byddant yn cysylltu ag APHA;
4. Wrth gofnodi'r wybodaeth ar SAM, cewn ein hannog i gwblhau'r Defnydd Cynhyrchu Anifeiliaid, felly gofynnwn i'r cwsmer amdano. Mae sawl dewis yn y gwymplen, e.e. Cig Eidion, Magwr Lloi, Godro ac ati;

[4] Mae gan APHA "robot", sy'n codio rhywfaint o'r data a dderbynnir gan 'Reoli Fy CPH' trwy'r porthiant data dros nos yn awtomatig.

5. Unwaith eto, cewn ein hannog ar SAM i benderfynu beth yw ‘Diben eu Busnes’ a byddwch yn cael sawl gwahanol opsiwn yn dibynnu ar y Defnydd Cynhyrchu Anifeiliaid a ddewisoch;
6. Gofynnwn am eu rhifau stoc (nifer y gwartheg, defaid ac ati sydd ganddynt *fel arfer*) ac a ydynt yn bedigri ai peidio;
7. Mae angen i ni wybod enw eu Milfeddyg Swyddogol (OV) (cysylltwn hyn â’r Partner Cyflawni – mae’n annhebygol y byddai’r ffermwr yn gwybod hyn – mae dau Bartner Cyflawni yng Nghymru, Mentera yn y gogledd ac Iechyd Da yn y de, sy’n cydlynu’r practisiau milfeddygol sy’n cynnal y profion TB);
8. Os ydynt yn cadw gwartheg, byddwn yn trefnu eu prawf TB cyntaf (Prawf Gwirio Buches Newydd), er mwyn iddynt fewnbynnu gwybodaeth pan fydd yn gyfleus ac ati, o fewn 12 mis o’r alwad ffôn.

| | |
|---|---|
| **Nodwch y CPH** - | - |
| **Gwiriwch a yw’n Fusnes neu’n Unigolyn** | - |
| **Enw Llawn y Prif Gyswllt** | - |
| **Rhif(au) Ffôn** | - |
| **Cyfeiriad E-bost (gofynnwch a yw’n well ganddo gysylltu trwy’r e-bost neu’r post?)** | - |
| **Cyfeiriad Llawn y Cwsmer?** | - |
| **A YW’R COFNOD HWN YN NEWYDD (nodwch y rhif IEC) / WEDI’I ARCHIFO / CYFREDOL** | - |
| **A ydych chi wedi cael rhif CPH yn y gorffennol? Nodwch y rhif.** | - |
| **Dewiswch Gyfrinair** [Prompt wedi’i ddileu] | - |
| [Prompt wedi’i ddileu] | - |
| [Prompt wedi’i ddileu] | - |
| [Prompt wedi’i ddileu] | - |
| **Dyddiad Geni** (neu ddyddiad cofiadwy) | - |
| **Dewis iaith ar gyfer cyfathrebu** | **CYMRAEG / SAESNEG** |

| | |
|---|---|
| **NIFER Y STOC –**<br><br>**PERCHENNOG**: IE/NA<br>**CEIDWAD**: IE/NA<br>(Os atebwyd 'na' uchod i bwy yw'r ceidwad)<br><br>**MATH O GYNHYRCHU –** | **GWARTHEG**<br>Cig Eidion<br>Magwr Lloi<br>Godro<br><br>**DEFAID**<br>Cig/Cynnyrch Llaeth<br>Gwlân/Pesgi<br>Bridio<br><br>**MOCH**<br>Masnachol<br>Anfasnachol |
| **GWARTHEG – DYDDIAD PROFI A FFEFRIR**<br>(Hyd at flwyddyn o'r dyddiad cofrestru) | - |
| Os **56 CPH**, gwiriwch a yw'r daliad mewn ardal **ITBAN** –<br>os felly, rhowch '**ARDAL ITBAN CL** --' yn y memo | - |
| **MANYLION LVI –**<br>(mae hyn yn ofynnol ar gyfer gwartheg yn unig) | - |
| **A yw'r daliad hwn yn yr ardal IAA? Os felly:**<br>***a)*** **Gwiriwch yr *<u>holl</u>* leoliadau da byw gyda'r cwsmer**<br>**b) Ychwanegwch god prawf NH1**<br>**c) Ychwanegwch femo i'r cwsmer a chofnod uned**<br>**ch) Anfonwch ACT at Netty** | - |
| **A YW LLEOLIAD Y BUCHESAU/DIADELLAU YR UN PETH Â'R PRIF DDALIAD**: YDYW/NAC YDYW<br><br>**OS NAD YW** cofnodwch fanylion lleoliad(au) y fuches/y ddiadell<br><br>CYFEIRIAD:<br><br>COD POST:<br>CYFEIRNOD MAP: | - |
| **Unrhyw fanylion/stoc eraill** | - |
| **Rhif Adnabod y Cwsmer** | - |
| **Rhif Adnabod y Lleoliad** | - |
| **Rhif Lleoliad yr Uned** | - |
| **Rhif Adnabod y Ceidwad**<br>(Rhif Cwsmer wrth greu ceidwad ar gyfer Busnes) | - |

****A YW VCD (cadarnhau manylion y cwsmer) WEDI CAEL EI WEITHREDU AR SAM (BASGED WAITH CC)?**
**YDYW**

****A WIRIWYD VETNET (y diwrnod canlynol) I SICRHAU BOD Y MANYLION WEDI'U TROSGLWYDDO? DO**

7.2 Yn y prif adroddiad (Paragraff 3.15), trafodir 'Siop Un Stop' dros y ffôn a weinyddir gan yr Asiantaeth Taliadau Gwledig yn Lloegr sy'n cael ei threialu'n barhaus. Mae hyn yn cynnwys ffurflen gofrestru, sydd ar gael yn gyhoeddus yma, ond fe'i copïwyd isod i sicrhau y gellir parhau i ddysgu ganddo ar ôl i gynllun peilot yr RPA ddod i ben.

**Cynllun Peilot Cofrestru Rhifau Daliadau (CPH)**

**Manylion**

1. Enw Llawn. I fod yn gymwys i gymryd rhan yn y cynllun peilot:

- mae'n rhaid i chi fod yn gwneud cais am rif CPH am **y tro cyntaf** a pheidio â bod wedi'ch cofrestru ar y Gwasanaeth Taliadau Gwledig
- mae'n rhaid i'r tir fod yn Lloegr
- mae'n rhaid i chi fod dros 18 oed
- mae'n rhaid i chi fod yn gyfrifol am y da byw
- mae'n rhaid bod gennych dda byw neu byddwch yn cael da byw o fewn y **30 niwrnod** nesaf
- os ydych yn cadw dofednod yn unig, mae'n rhaid i chi fod â **dros 50 o stoc**. (Os oes gennych lai na 50 o stoc, cliciwch yma a llenwch ffurflen ddofednod wirfoddol APHA, https://poultryregistration.defra.gov.uk/?culture=en-GB)

  *[Blwch testun agored ar gyfer ateb]*

2. Rhif Ffôn. Mae hyn yn ofynnol er mwyn:

- eich helpu i gwblhau eich cais am rif CPH **dros y ffôn**
- gofyn cwestiynau ychwanegol i chi fel na fydd rhaid i chi gofrestru ar wahân gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) a Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) (os yw'n berthnasol)
- eich ffonio ar adeg gyfleus (ni ddisgwyliwn i'r alwad gymryd mwy na 30 munud.)

  *[Blwch testun agored ar gyfer ateb]*

3. Cyfeiriad E-bost

*[Blwch testun agored ar gyfer ateb]*

4. Cod Post. Rhowch y cod post ar gyfer cyfeiriad eich Cartref/Busnes.

*[Blwch testun agored ar gyfer ateb]*

5. Y dyddiad gorau i'ch galw – dydd Llun i ddydd Gwener. (Yn anffodus, ni allwn gynnig galwad ar y penwythnos/Gwyliau Banc) (yn ddelfrydol, dim mwy na 5 niwrnod o heddiw)

*[Darperir calendr rhithwir i ddewis dyddiad]*

6. A fyddai'n well gennych gael.... Galwad yn ôl rhwng 08:30 a 17:00

- bore
- prynhawn

7. A oes arnoch angen unrhyw gymorth ychwanegol

- Oes
- Nac oes
-

**Beth fydd arnoch ei angen:**

Bydd RPA yn gofyn am y wybodaeth ganlynol pan fydd yn cysylltu â chi:

- rhifau cae'r Grid Cenedlaethol ar gyfer eich holl dir lle y byddwch yn cadw da byw (https://magic.defra.gov.uk/)
- enw eich practis milfeddygol i drefnu profion TB (os ydych yn cadw gwartheg)
- y manylion cadw a'r system rheoli fferm y byddwch yn eu defnyddio (os ydych yn cadw dofednod)
- y defnydd cynhyrchu ar gyfer eich holl dda byw (er enghraifft, anifail anwes, pesgi, bridio, godro)

Diolch am gymryd rhan yn y cynllun peilot.

## Atodiad B: Persona defnyddiwr



# Emma Rees

### Persona

- Oedran: 50
- Galwedigaeth: ffermwr
- Lleoliad: Sir Benfro
- Rhagenw: hi

### Anghenion y defnyddiwr

Fel defnyddiwr, mae angen ffordd syml a greddfol arnaf o reoli fy rhifau CPH a ddefnyddir ar gyfer adrodd ar dda byw a'u holrhain, ar yr un pryd â chadw statws fy naliadau'n gyfredol yn y system.

## Atodiad C: Map o daith y defnyddiwr

| **Camau'r defnyddiwr**<br>Beth yw pob cam o daith y defnyddiwr? | **Ymwybyddiaeth**<br>Mae'r defnyddiwr yn dod yn ymwybodol o angen sy'n dod i'r amlwg neu'n darganfod platfform sy'n gallu helpu i fynd i'r afael â thasgau neu heriau cysylltiedig | **Archwilio**<br>Mae'r defnyddiwr yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael i gwblhau nodau penodedig | **Defnydd**<br>Mae'r defnyddiwr yn rhyngweithio â'r cynnyrch i gwblhau nodau penodedig | **Cymorth**<br>Mae'r defnyddiwr yn cael cymorth pan fydd angen ac atebion rhwydd i ddatrys problemau | **Defnydd parhaus**<br>Mae defnydd parhaus yn gysylltiedig â chynyddu ymgysylltiad ac integreiddio'n ddyfnach â'r platfform |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithredoedd y defnyddiwr**<br>Beth mae'r defnyddiwr yn ei wneud yn ystod pob cam? | Mae'n dod yn ymwybodol bod angen iddi gyflawni gweithred yn ymwneud â'i rhifau CPH<br>A/NEU<br>Mae'n dod yn ymwybodol bod platfform digidol ar gael i'w helpu i reoli data sy'n gysylltiedig â CPH | Mae'n chwilio ar-lein am blatfform i'w helpu gyda'i cheisiadau CPH → Mae'n cael ei hailgyfeirio at wefan Llywodraeth Cymru<br>NEU<br>Mae'n gofyn i eraill sut i reoli data CPH ar-lein ac yn cael gwybod am Reoli Fy CPH → Mae'n chwilio ar-lein i ddod o hyd i'r platfform ac yn cael ei hailgyfeirio at wefan LIC<br>→ Dolenni LIC i RPW Ar-lein i agor Rheoli Fy CPH → Mae'n ceisio cael at Reoli Fy CPH trwy RPW | Mae'n defnyddio'r platfform i wneud y canlynol: Trosi CPH i'r system newydd; Creu prif rif CPH newydd; Creu rhif CPH dros dro (tCPH) neu Gysylltiad Tir Dros Dro (TLA); Ychwanegu neu ddileu tir mewn CPH presennol → Cau CPH | Mae'n ceisio cymorth i ddatrys problemau neu gael ateb i gwestiynau | Mae'n defnyddio'r platfform yn rheolaidd i reoli data sy'n gysylltiedig â CPH<br>Nid yw'n defnyddio'r system yn aml i reoli tasgau sy'n gysylltiedig â CPH |
| **Nodau a phrofiadau**<br>Beth mae'r defnyddiwr yn ceisio ei gyflawni? | Mae hi eisiau canfod sut y gall gyflawni tasgau sy'n gysylltiedig â'i rhifau CPH<br>A/NEU<br>Mae hi eisiau dod o hyd i'r offeryn ar-lein i'w helpu i reoli rhifau CPH | Mewngofnodi i'r platfform, i ddechrau rheoli data CPH<br>Mae'n ceisio cael digon o arweiniad i gyflawni tasgau penodol sy'n gysylltiedig â CPH | Mae'n disgwyl defnyddio'r platfform a gallu cyflawni'r tasgau uchod o'r dechrau i'r diwedd heb lawer o arweiniad allanol neu ddim arweiniad allanol<br>Mae'n disgwyl gallu defnyddio'r system yn yr un ffordd ag y disgrifir yn y deunydd canllaw heb unrhyw weithredoedd annisgwyl<br>Mae angen dyluniad syml a greddfol arni i'w helpu i gwblhau'r tasgau | Mae'n disgwyl cael cymorth clir o fewn y platfform ar gyfer y broblem y mae eisiau ei datrys | Ar ôl defnyddio'r system sawl gwaith, mae'r defnyddiwr bellach yn gallu cyflawni tasgau'n gyflymach, er y gallai'r system deimlo'n gymhleth o hyd ar gyfer tasgau penodol |
| **Teimladau a meddyliau** | Mae'n teimlo'n falch o wybod bod system ar-lein ar gyfer rheoli tasgau CPH, ond yn amau pa mor ddefnyddiol fydd y system | Mae'n teimlo'n ddryslyd oherwydd ail-lywio sawl gwaith o wefan y llywodraeth tan fewngofnodi i'r platfform<br>Mae'n teimlo/credu nad yw'r llwybr i gael at y platfform yn glir nac yn syml gan nad oes porth penodol ar wahân<br>Mae'n teimlo/credu bod llawer o wybodaeth i'w deall cyn defnyddio'r system | Mae wedi drysu ac yn teimlo'n rhwystredig oherwydd diffyg esboniadau o derminoleg a disgrifiadau ac arweiniad annigonol ar gyfer tasgau<br>Mae'n teimlo nad yw'r feddalwedd yn reddfol ac yn hawdd ei defnyddio ac mae'n credu y gallai elwa o ddyluniad symlach<br>Mae'n rhwystredig oherwydd dangosyddion gwallau aneglur ac absenoldeb arweiniad parod ar sut i'w datrys | Mae'n teimlo ei bod wedi cael cymorth digonol dros y ffôn<br>Mae'r arweiniad wedi'i llethu ac nid yw'n credu bod digon o gymorth ar gael o fewn y platfform i'w helpu i gwblhau tasgau | Mae'n teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r platfform ar ôl ei ddefnyddio sawl gwaith<br>NEU<br>Mae'n teimlo wedi'i hymddieithrio o'r platfform gan nad yw'n cyfateb i'w disgwyliadau o ran defnydd |

| **Camau'r defnyddiwr**<br>Beth yw pob cam o daith y defnyddiwr? | **Ymwybyddiaeth**<br>Mae'r defnyddiwr yn dod yn ymwybodol o angen sy'n dod i'r amlwg neu'n darganfod platfform sy'n gallu helpu i fynd i'r afael â thasgau neu heriau cysylltiedig | **Archwilio**<br>Mae'r defnyddiwr yn ystyried yr opsiynau sydd ar gael i gwblhau nodau penodedig | **Defnydd**<br>Mae'r defnyddiwr yn rhyngweithio â'r cynnyrch i gwblhau nodau penodedig | **Cymorth**<br>Mae'r defnyddiwr yn cael cymorth pan fydd angen ac atebion rhwydd i ddatrys problemau | **Defnydd parhaus**<br>Mae defnydd parhaus yn gysylltiedig â chynyddu ymgysylltiad ac integreiddio'n ddyfnach â'r platfform |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhwystrau**<br>Beth nad yw'n gweithio'n dda? Beth sy'n anodd ei ddefnyddio? | Ar ôl archwilio neu gael awgrymiadau gan eraill, mae Emma yn gwybod bod system ar-lein benodol ar gyfer rheoli data CPH, ond nid yw'n gwybod sut i gael ati | Nid oes mynediad uniongyrchol i'r platfform (mae angen ailgyfeirio sawl gwaith trwy wefannau eraill cyn mewngofnodi)<br><br>Gan nad oes porth uniongyrchol i'r platfform, nid yw'n glir a yw'r defnyddiwr "ar" y platfform ar hyn o bryd<br><br>Gall y defnyddiwr ddrysu rhwng Rheoli Fy CPH a Rheoli Fy Nhir oherwydd eu bod yn edrych yn debyg | Mae diffyg opsiynau personoli ar y platfform (e.e. mae blociau wedi'u rhifo o flaen llaw ac ni ellir eu hailenwi)<br><br>Nid yw'r system wedi'i dylunio'n reddfol i wella effeithlonrwydd ac eglurder camau gweithredu<br><br>Mae gan y system allu isel i adnabod gwallau ac adfer o wallau<br><br>Mae'r system yn defnyddio adnoddau'n ddwys (yn enwedig y map) sy'n effeithio ar amserau llwytho a pherfformiad, yn enwedig mewn ardaloedd lle ceir cysylltiadau gwan â'r rhyngrwyd | Nid oes digon o gymorth ar gael o fewn y platfform i helpu i ddatrys problem<br><br>Nid yw'r cymorth ar-lein y tu allan i'r platfform yn ddigonol/ digon gweladwy i'r defnyddwyr | Mae'r system yn ddryslyd ac yn anodd ei gweithredu, sy'n arwain at ymddieithrio<br><br>Mae'n cymryd llawer o amser i'r system lwytho, sy'n arwain at ymddieithrio |
| **Cyfleoedd**<br>Sut gallem fynd i'r afael â'r rhwystrau hyn?<br>Pa mor fawr yw'r cyfle os byddwn yn cywiro'r rhwystr hwn?<br>Sut gellir gwasanaethu'r unigolyn hwn mewn ffyrdd newydd? | Mynd i'r afael ag ymwybyddiaeth isel trwy hyrwyddo'r platfform trwy sianeli presennol a rhwydweithiau rhanddeiliaid | Gwneud y broses gyffredinol o chwilio am y platfform i fewngofnodi yn syml<br>→ Ei gwneud yn haws dod o hyd i Reoli Fy CPH ar wefan LIC<br>→ Gwneud y pwynt mynediad i Reoli Fy CPH yn fwy amlwg o fewn RPW Ar-lein<br>→ Symleiddio mynediad gyda phorth mewngofnodi penodol ar gyfer Rheoli Fy CPH | Cynnal asesiad defnyddioldeb i weld pa feysydd sy'n peri'r drafferth fwyaf i ddefnyddwyr a llywio datrysiadau effeithiol<br><br>Ailystyried saernïaeth wybodaeth y cynnyrch i fodloni modelau meddyliol y defnyddiwr (ble mae defnyddwyr yn credu y mae'r hyn maen nhw'n chwilio amdano wedi'i leoli yn y cynnyrch)<br><br>Ailddylunio llif defnyddiwr y system er mwyn iddi weithredu'n fwy didrafferth a greddfol a symleiddio prosesau<br><br>Gwahaniaethu'n glir rhwng y llwybrau ar gyfer cyflawni gwahanol dasgau<br><br>Gwneud y map yn barhaus. Bydd peidio â gorfod ail-lwytho'r map yn gwella'r gallu i lywio a phrofiad y defnyddiwr<br><br>Defnyddio Rhyngwyneb Rhaglennu Cymwysiadau (API) i ganfod amodau rhwydwaith y defnyddiwr ac addasu'r cynnwys yn unol â hynny<br><br>Gwella dyluniad rhyngwyneb y defnyddiwr i gyfateb i anghenion y gynulleidfa darged a chaniatáu llif defnyddiwr didrafferth<br>→ Creu elfennau rhyngwyneb defnyddiwr hygyrch a syml<br>→ Cynnwys llwybrau gweithredu clir ar gyfer tasgau y gellir eu cyflawni ar y platfform i wella'r gallu i lywio'n rhwydd a chwblhau tasgau<br><br>Gwella arweiniad a chymorth o fewn y platfform<br>→ Defnyddio esboniadau neu labeli disgrifiadol ac eiconograffeg y gellir ei hadnabod yn rhwydd yn unol ag arferion gorau i ddangos swyddogaeth au'r prif fotymau ac esbonio terminoleg<br>→ Esbonio gwallau'n glir fel bod y defnyddiwr yn ymwybodol o beth sy'n digwydd a chynnig datrysiadau neu opsiynau rhwydd i gywiro'r gwallau | Sicrhau bod y deunyddiau sydd eisoes ar gael yn weladwy i'r defnyddwyr ac yn hawdd cael atynt trwy ychwanegu adrannau perthnasol neu ddolenni clir o fewn y platfform<br><br>Cyflwyno adran Cwestiynau Cyffredin i gael cymorth cyflym | Optimeiddio perfformiad y platfform i sicrhau profiad didrafferth i ddefnyddwyr (h.y. symleiddio'r dyluniad, lleihau i'r elfennau angenrheidiol) |